YR YMOFYNYDD.

RHIF. 35.] TACHWEDD, 1861. [AIL GYFRES.

YSPRYDOLIAETH AC ANFFAELEDIGRWYDD.

RHIF. III.

DANGOSWYD yn ein Rhifyn diweddaf mai at ysgrifeniadau yr Hen Destament yn unig, neu gyfran o honynt, oedd yr Apostol Paul yn cyfeirio (2 Tim. iii. 17) pan yn crybwyll am "yr holl ysgrythyr a roddwyd trwy ysprydoliaeth Duw;" ac yn sicr nad oedd Paul yn meddwl cyfeirio at y llyfrau a wnant i fynu ein Testament Newydd ni, yn gymaint nad oedd y casgliad gwerthfawr hwn mewn bodolaeth ar y pryd hwnw. Ond hyderwn na ddarfu i ni fod mor anhappus wrth hyny a rhoddi lle i'r darllenydd gasglu ein bod yn diystyru neu yn diraddio y Testament Newydd mewn cydmariaeth â'r Hen. O na, nid felly; ond yn hytrach i'r gwrthwyneb y mae. Gyda phob parch dyledus i'r hen dduwiolion gynt, yr ydym ni yn gorfoleddu yn y fraint o gael ymrestru gyda disgyblion Crist a'r Testament Newydd. Nid i'r Hen Destament ond i'r Newydd yr awn ni, ac yr annogwn eraill i fyned am addysg yn ngwirioneddau dadguddiad Dwyfol. Nid at Moses na'r Proffwydi, ond at Grist—ein unig Athraw—yr awn i ddysgu a derbyn oddiwrtho "eiriau y bywyd tragwyddol."

Dichon y gwel y darllenydd ein bod ni, yn hyn, yn anghytuno â'r duwinyddion poblogaidd, ac â'r lluaws o Gristnogion sydd dan eu harweiniad, y rhai a haerant fod yr Hen Destament a'r Newydd, a phob rhan o honynt yn ogyfuwch mewn awdurdodoldeb. Beuir arnom am hyny, gan rai, ond odid. Ond credwn y byddai yn hawdd dangos i bob dyn diragfarn, nad o'n tu ni y mae yr anghysondeb yn hyn o beth. Gellid appelio at gredinwyr proffesedig yn Nghrist, a gofyn, "A ydyw yn angenrheidiol neu yn weddus i ni fyned yn mhellach nag at Grist ei hun er cael addysg a deall ar wirioneddau ei ei efengyl Ef? Os ydoedd yr hen gyfammod yn amherffaith heb y Newydd, oni chydnabyddir yn llawen ac yn ddiolchgar fod y "Testament gwell"—y cyfammod newydd—yn cynnwys holl addewidion Duw, a chyflawn amlygiad o'i garacter, a'i ewyllys, a'i amcanion tuag at blant dynion? A oes eisiau rhagor na hyn? Eisiau rhagor na hyn, yn wir! Ië, dyna'r cwestiwn, gan nad pa fodd yr attebir ef gan hwn a'r llall.

Attebwn ni, heb un petrusder, nad oes eisiau rhagor; a hyny, am ein bod yn credu yn nwyfoldeb Efengyl Crist;—neu, fod ein Harglwydd Iesu Grist wedi ei *ysprydoli* gan Dduw, yn yr ystyr uwchaf a ellir ei roddi i'r gair ysprydoliaeth dwyfol;—fod y dwyfol ysprydoliaeth yma i'w ganfod yn amlwg yn y gwyrthiau a wnaeth Duw trwyddo; yn ei ddysgeidiaeth nefol ac yn ei garacter perffaith; yn ei lafur a'i ddioddefiadau; yn ei fywyd a'i farwolaeth;

ac yn ei adgyfodiad gogoneddus oddiwrth y meirw. Dymunem bob amser ddwys ystyried a diolchgar gydnabod llaw Duw a'i ysprydoliaeth nefol yn y ffeithiau a'r addewidion gogoneddus, cydfynedol â gweinidogaeth Crist ar y ddaear, a phlaniad ei efengyl yn y byd. A chredwn, gyda'r Apostol Paul (Rhuf. i. 16), fod "efengyl Crist yn allu Duw er iechydwriaeth i bob un a'r sydd yn credu"—i'r cenedl-ddyn fel i'r Iuddew—ac i bawb yn ddiwahaniaeth; ac am hyny teimlwn nad oes eisiau rhagor na'r efengyl hon, yn y purdeb a'r cyflawnder o honi.

Ac ar y tir hwn, sef perffaith gyflawnder yr oruchwyliaeth Efengylaidd, gallwn ddywedyd, heb betrusder, fod yr Efengyl yn anymddibynol ar Iuddewaeth.—Fel credinwyr cenhedlig y mae i ni trwy Grist fynediad at Dduw yn uniongyrchol.—Nid felly y barnai yr Iuddewon, na'r Cristnogion Iuddewig ar y cyntaf; ond felly y dysgai yr Apostol Paul mewn modd pendant ddigon. Ac yn sicr nid oes eisiau na Moses na'r Proffwydi, er rhoddi y goleuni a'r nerth gofynol i Efengyl Crist.

Fel yr "un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion," yr oedd a wnelai "y dyn Crist Iesu," yn y gyfrwngwriaeth Efengylaidd â dynoliaeth *yn gyffredinol*, ac nid â had Abraham yn unig. Nid oes le i un amheuaeth, debygem, yn nghylch hyny. Dywedasai Crist yn ddigon pendant wrth ei ddisgyblion personol, ond pan nad oeddent hwy yn ei gwbl ddeall, "fod ganddo ef ddefaid eraill, nad oeddent o'r gorlan Iuddewig, y rhai hefyd yr oedd yn rhaid iddo ef eu cyrchu:" a thrwy drugaredd felly y gwnaethpwyd. Nid oes dim ag sydd yn gyfyngedig neu yn neillduedig yn yr athrawiaeth Gristnogol am Un Duw a Thad pawb oll, Duw pob trugaredd, ac Awdwr a Rhoddwr bywyd tragwyddol. Adgyfodiad i bawb, cyfiawnion ac anghyfiawnion; a barn gyfiawn, i roddi i bob dyn yn ol ei weithredoedd; a thrugaredd yr Anfeidrol Dad, fel cynt, ac erioed, a byth, i barhau yn dragywydd.

Yr oedd ysprydoliaeth ddwyfol yn eglur ganfodadwy yn ngweinidogaeth a phregethiadau Paul, Apostol mawr y Cenhedloedd; a bu yn effeithiol er argyhoeddi lluoedd, a'u henill i'r ffydd yn Nghrist. Ond yr oedd Paul yn priodoli hyn yn gwbl i'r awdurdodaeth a gafodd oddiwrth Grist ei hun, a'r hyn a ddysgodd gan yr Iesu, neu mewn ffyrdd eraill, am wirioneddau sylfaenol Cristnogrwydd.—Ac y mae ysprydoliaeth Crist, neu effaith ei ddysgeidiaeth, i'w ganfod yn amlwg yn llywodraethu meddwl, teimladau, gobeithion, ac ymddygiad yr Apostol, fel yr ymddengys yn ei ysgrifeniadau. A diau fod llawer o'r Cenhedloedd a enill wydi'r ffydd trwy ei weinidogaeth ef, wedi cyfranogi i ryw fesur o'i ysprydoliaeth. Ac er na wyddent ond ychydig neu ddim am y Messia a ddisgwyliasid gan yr Iuddewon, etto wedi eu hargyhoeddi o ddwyfoldeb yr Efengyl, teimlent, ar sail resymol, fod ganddynt hawl a lle "yn y nefolion leoedd yn Nghrist Iesu." Ac felly ymddengys nad yw y cyssylltiad rhwng Cristnogaeth ac Iuddewaeth ddim ond un hanesyddol.—Saif gwirionedd Cristnogrwydd ar ei sail ei hun heb ofyn help o un man.

Gellir yn hawdd ganfod, a theimlo, gobeithiwn, fod gwirioneddau yr Efengyl *yn anffaeledig*, a'i haddewidion gwerthfawr oll "yn ïe ac yn amen." Rhydd hyn sail gadarn a diogel ddigon i'n ffydd, a'n gobaith, a'n cariad. Pwy na ymfoddlona ar gyfarwyddyd anffaeledig ac addewidion sicr? Ond, ar yr un pryd, fel y mae ei reswm yn dangos i bob dyn pwyllog, ac fel y'n rhybuddir gan yr Apostol Paul, nid yw yn iawn i ni ddisgwyl am yr unrhyw berffaith anffaeledigrwydd yn y cyfryngau neu'r offerynau a welodd Duw yn

dda, yn ei ragluniaeth, i'w defnyddio, er trosglwyddo i ni y trysor gwerthfawr. Er yn llewyrchiad oddiwrth Dad y goleuni, dygwyd "y trysor hwn i ni mewn llestri pridd." *Dynol* oedd yr offerynoliaeth, ac am hyny ddim yn rhydd oddiwrth briodoleddau a ffaeleddau sydd yn nglyn â dynoliaeth; ond nid yn llai effeithiol oherwydd hyny er trosglwyddo y gwirionedd a'i ddwyn adref i'r deall a'r teimlad dynol.

Cymmerer yr ysgrifenwyr santaidd i fod y peth a ymddangosant ac a broffesant eu bod; ac nid y peth a haera duwinyddion y *dylent* fod. Ynfydrwydd fyddai priodoli gwybodaeth anffaeledig hyd yn oed i'r proffwydi; a byddai yn fyrbwyll i'r eithaf i gyfrif y fath berffeithrwydd gwybodaeth i neb o ysgrifenwyr y Beibl. Mewn gwybodaeth Gelfyddydol ac Hanesyddol yn enwedig, rhoddant brofion anwadadwy fod eu golygiadau yn amherffaith a chamsyniol fel eiddo eu cydoesolion. A rhyfedd pe na buasai felly. Nid yw hyny ddim yn lleihau gwerth eu tystiolaeth i'r hyn a wyddent ac a deimlent am wirioneddau Crefydd. Fe wel yr efrydydd crefyddol fod yr amrywiol gyfansoddiadau a geir yn ein Beibl, bob un yn dwyn yr argraff o'r oes a'r amgylchiadau y cyfansoddwyd ynddynt, a dysg oddiwrth hyny pa fodd y mae i wneud iawn ddefnydd o honynt; ond, os o'r un meddwl â ni, fe lawenycha yn y fraint o gael ei grefydd yn y Testament Newydd.

Ond nid yw dullwedd na chynnwysiad hyd yn oed y Testament Newydd yn rhoddi cefnogaeth i'r dyb boblogaidd am ysprydoliaeth anffaeledig pob rhan a phob gair o'r Beibl; ond yn gwbl i'r gwrthwyneb. Ar y dybiaeth honno, sef bod pob gair wedi ei osod i lawr trwy gyfarwyddiad yr Ysprydd Glân, y mae yn amlwg na roddasid ond *un* efengyl, yn lle y pedair sydd genym; y rhai ydynt yn amrywio oddiwrth eu gilydd mwy neu lai; er nad mewn pethau oeddent o bwys, mae'n wir, nac yn effeithio dim ar sicrwydd a digonoldeb y dystiolaeth a ddygid i ffeithiau sylfaenol y ffydd Gristnogol, y rhai oeddent y pryd hyny yn adnabyddus i'r holl gorph o gredinwyr; ond, ar yr un pryd, awrywiaethau ydynt o'r fath ag sy'n hollol groes i'r dybiaeth fod pob gair wedi ei osod i lawr trwy gyfarwyddiad anffaeledig yr Ysprydd. Y mae'r dyb boblogaidd yn gwneud yn fach o'r Efangylwyr, trwy eu gosod allan fel peirianau *(machines)* yn unig, ac yn gwneud cam â hwynt trwy briodoli i'w hysgrifeniadau fath o anffaeledigrwydd nad ydynt yn ei feddu nac yn ei broffesu ychwaith. Y mae yn resyn i feddwl fod llawer o'r rhai a wyddant yn well, yn rhoddi cefnogaeth i'r fath honiadau disail, ac felly yn bradychu y Beibl i ddwylaw gwrthwynebwyr, ac yn peryglu ffydd y rhai a ewyllysient gredu yn ei wirioneddau.

Nid ar gywirdeb a manylwch *geiriol* mae gwirionedd yr Efengyl yn ymddibynu. A gadael fod yr Efangylwyr yn gamsyniol yn yr hanes a roddant o rai ddigwyddiadau o ychydig bwys, megys y maent weithiau yn amrywio oddiwrth eu gilydd, ac yn benaf o ran amser a threfn y digwyddiadau a adroddant. Ond beth am hyny? A oeddent, serch hyny, yn llai tystion gwirioneddus i'r hyn oeddent yn ei wybod neu wedi glywed ynghylch y ffeithiau pwysig a gogoneddus ag oeddent yn sail ffydd, cysur, a gobaith, trwy yr holl gorph o gredinwyr? A beth mae y fath ddiffygiadau a gyfarfyddir yn yr Efangylwyr yn ei brofi, yn rhagor na hyn:—sef, mai dynion oeddent; nad oedd eu cof yn anffaeledig, na'u gwybodaeth yn berffaith ynghylch digwyddiadau a adroddwyd iddynt gan eraill—a'u bod, ar bynciau cyffredin, yn cyfranogi o syniadau a rhagfarnau y wlad a'r oes y perthynent iddi.

Nid ydym yn gwrthod y dystiolaeth am ei bod yn cael ei chynnyg i ni

mewn dullwedd ag sydd wedi ei ddwfn-liwio â meddylddrychau Hebreig, ac weithiau gyda mwy o'r gormodiaith arferol yn y Dwyrain, nag y sydd yn cydweddu â chwaeth gyssefin cenhedloedd y Gorllewin. Nid yn y plisgyn allanol, ond yn y cnewllyn sydd o fewn, y ceir y gwerth a'r buddioldeb. Y mae yr amrywiaeth, o ran amgylchiadau nad oeddent ond o ychydig pwys, yn hytrach yn cadarnhau y ffeithiau mawr ag oeddent yn cyd-dystiolaethu iddynt.

Onid ydyw yn beth teilwng o ystyriaeth, nad yw yr Efangylwyr eu hunain yn dywedyd nac yn rhoddi ar ddeall, mai gosod i lawr yn unig oeddent hwy yr hyn yr oedd yr Ysprydd Glân, mewn modd anffaeledig, yn eu cyfarwyddo i ysgrifenu? Duwinyddion yr oesoedd diweddar sydd wedi dychymygu hyny o beth. Iaith yr Efangylwr Ioan oedd, mai "yr *hyn a welodd ac a glywodd* ef, hyny yr oedd yn ei dystiolaethu." A dywed Luc yn bendant mai "gosod i lawr mewn trefn wnaeth ef y pethau a gredid yn ddiamheu, megys y traddodwyd hwynt gan y rhai oeddynt eu hunain o'r dechreuad yn gweled ac yn weinidogion y gair." (Luc i. 1—4.)

Yr oedd yr Efengyl yn cael ei phregethu a'i chredu yn y byd—a chredu hefyd er iechydwriaeth—pan nad oedd dim etto o'r Testament Newydd wedi ei ysgrifenu. Ond yr oedd Cristnogrwydd y pryd hyny; er nad mewn llythyren ysgrifenedig. Yr oedd ei phrif ffeithiau a'r athrawiaethau pwysig a chysurlawn sylfaenedig arnynt, wedi gafaelu ar ddeall a theimladau y rhai a ddygwyd i'r ffydd trwy bregethiad yr Apostolion.

Nid yn y llythyren farw, ond yn yr ysprydd sydd yn bywhau, mae i ni gael goleuni a diddanwch ac iechydwriaeth. Y gwir ysprydoliaeth ydyw yr hyn a geir trwy ffydd yn ngwirioneddau yr Efengyl, a'r ddysgeidiaeth nefol am yr Un Duw, a hwnw yn Dad, yr hwn, o'i fawr drugaredd, sydd wedi ein hadgenhedlu i obaith anfarwol trwy adgyfodiad Crist.

Wedi'r cyfan, fe welir nad yw Dadguddiad yn amcanu gosod rheswm i gysgu, nac yn tynu ei phriod waith allan o'i dwylaw, nac yn ei diorseddu ychwaith, mor gynted ag y byddo wedi cydmaru a phwyso y profion, a phenderfynu fod y cyfryw ddadguddiad yu wirioneddol. Lled anfoesgar, onite, fyddai troi rheswm i maes dros y trothwy, yn union ar ol iddi gyflawni gorchwyl mor bwysig. Ai tybed na fyddai rheswm o gryn lawer o ddefnydd yn y gwaith pwysig a ddylai ganlyn, sef chwilio a barnu pa bethau sydd mewn gwirionedd wedi eu dadguddio? Ond na, medd pleidwyr yr anffaeledigrwydd, rhaid troi rheswm allan, onite dichon iddi gyfodi ei llais yn erbyn ein awdurdod a'n esponiadau ni: ac os gwadir ein awdurdod ni, cystal rhoddi i fynu dadguddiad yn gwbl! Dyna, mewn effaith, yw iaith y cyfryw—yr hen lefain Pabaidd sydd yn aros.

Ond mewn gwirionedd y mae mynegiadau dadguddiad Dwyfol yn appelio at ddeall a chydwybod pob dyn. A gelwir arnom i ddefnyddio ein rheswm er chwilio a chael allan *gynnwysiad* yn gystal a phrofion dadguddiad. Ac nid ellir myned ymlaen mewn ymestyniad at berffeithiach wybodaeth ar wirioneddau Cristnogrwydd heb ddefnyddio rheswm ar bob cam.

Y mae'r pwnc sydd wedi bod dan ein ystyriaeth, yn debyg o gael ei ddwyn yn fuan ger bron y cyhoedd dan amgylchiadau a fyddant i gyffroi sylw anghyffredin, ac o bosibl i ddechreu dadl nas gellir rhagweled ei therfyniad. Ond, bellach, rhaid i ni ei adael.

I.

*SYLWADAU AR DDAU GYHUDDIAD A DDYGIR YMLAEN YN ERBYN YR UNDODIAID:

Sef nad ydynt yn credu yn y Messiah, ac am eu bod yn arferyd eu rheswm mewn crefydd, ac yn gosod gormod o bwys arno.

Fe siaredir am danom ni (Undodiaid), fel enwad o Gristnogion, yn gyffredin iawn gyda llawn cymaint o ddiystyrwch ag a siaradwyd am sect y "Nazareaid" gynt. A'r cyhuddiad mwyaf cyffredin, yr wyf yn meddwl, a ddygir ymlaen yn ein herbyn yw, fod y syniadau ydym yn lletya yn tueddu i arwain dynion i ddyfod yn anffyddwyr; ac y mae rhai yn myned mor bell ag i ddweud mai anffyddwyr ydym. Ond ar yr un pryd, y mae yn gyssur meddwl nad yw y cyhuddiad uchod yn un newydd, nac wedi ei ddwyn gyntaf yn erbyn Undodiaid; oblegid y mae gwahanol enwadau, neu yn hytrach gwahanol sectau o Gristnogion, er yn fore iawn, wedi ei ddwyn ymlaen yn erbyn eu gilydd. Ac yn y dyddiau presenol hefyd, nid anfynych y clywir dau wrthwynebwr, yn eu gwaith yn dadleu â'u gilydd, yn cael eu cyffroi i briodoli anffyddiaeth, y naill i'r llall, pan yn fynych iawn nad yw y cyhuddiad yn cynwys dim mwy na llai na bod un yn gwadu rhyw bwnc ag y mae y llall yn ei gredu o ddirfawr bwys, a chyda brwdianwch neillduol yn ei bleidio a'i amddiffyn. Y mae pob un o'r ddau yn gosod pwys mawr ar ryw un pwnc neu athrawiaeth, yr hon y mae yn ystyried yn fwy pwysfawr na dim arall; hyny yw, fel y prif wirionedd sydd gynwysedig yn yr Efengyl. Ac o herwydd hyny, y mae yn dweud, ac efallai yn credu yn drwyadl ynddo ei hunan, os gwada ei wrthwynebwr y cyfryw bwnc ag y mae ef yn gosod y pwys mwyaf arno, ei fod yn llawn cystal, neu na byddai yn llai pechod, iddo wadu Cristnogaeth yn gyfangwbl. Felly yn gymwys fe ddywedir yn fynych iawn am Undodiaid, nad ydynt yn credu yng Nghrist.

Yn awr, y mae y dywediad uchod yn un amheus ac anmhenodol *(vague)* iawn. Dichon y gall gyfleu y drychfeddwl nad ydym yn credu fod y fath berson erioed wedi bod mewn bodolaeth; neu, ar y llaw arall, nad ydym yn ymddiried mewn dim a ddywedodd, neu ynte, nad ydoedd ef y peth yr oedd yn honi ei fod, yn gystal a'r hyn a honodd ei ddisgyblion ar ei ol mewn perthynas iddo. Y mae yn ddigon tebyg nad yw y cyfryw ag sydd yn arferyd y frawddeg mewn perthynas i'r Undodiaid yn golygu dim mwy na llai na'n bod yn gwadu ei Dduwdod. Y mae llawer yn meddwl ac yn haeru, heb y tipyn lleiaf o betrusder, mai yr un peth yn gymwys yw gwadu Crist a gwadu ei Dduwdod ef. Ar brydiau ereill, y mae y frawddeg yn cael ei harferyd mewn ystyr arall; ac fe ddywedir am danom nad ydym yn credu yn Nwyfoldeb *(Divinity)* Crist. Ac yma etto, y mae y frawddeg a gynnwys y cyhuddiad yn anmhenodol *(vague)* iawn. Dichon y gall feddwl fod ei berson yn ddwyfol, neu ei fod o'r un hanfod a Duw ei hunan; neu, ar y llaw arall, fod ei eiriau a'i weithredoedd yn ddwyfol; hyny yw, ei fod wedi llefaru a gweithredu o dan awdurdod ddwyfol. Gall hefyd gynnwys y drychfeddwl mai efe oedd y Jehovah, yr unig wir a'r bywiol Dduw; ac os hyny olygir pan ei harferir gan ein gwrthwynebwyr, yn ddiau byddai yn fwy cymhwys i ddweud nad ydym yn credu yn Nuwdod Crist.

Yn awr, er cael gweled a deall yn eglur pa un a oes galwedigaeth arnom i gredu yr athrawiaeth o briodol dduwdod Crist ai peidio, y mae yn rhaid i

* Gwel Burnap's objections to Unitarian Christianity—tu lal. 30.

ni appelio at yr Yrgrythyrau i benderfynu y ddadl, er cael allan hefyd beth oedd yr Apostolion yn gredu neu ynte yn anghredu mewn perthynas i hyny. Pedr oedd yr un cyntaf y mae genym hanes am dano, iddo droi a chredu yn yn yr Iesu fel y Messiah addawedig. Wel, beth oedd cyffes ei ffydd ef? Y mae Mathew yn dweud mai dyma hi: sef, "Tydi yw y Crist, Mab y Duw byw." Ond beth oedd Pedr yn olygu neu yn feddwl wrth y gyffes hon? A oedd ef yn meddwl honi rhywbeth mewn perthynas i nattur Crist, neu ynte mewn perthynas i'w swydd yn unig? Amlwg yw, wrth sylwi ar y frawddeg, nad yw yn haeru, yn hytrach ei fod yn gwadu ei Dduwdod. Nis gall *Mab* Duw fod yn *Dduw;* ac y mae genym dri o resymau i roddi dros hyny i gadarnhau ein gosodiad. Yn 1, Oherwydd ei fod wedi deilliaw oddiwrth y Tad. Yn 2, Oherwydd nas gall fod yn dragwyddol, oblegyd pe buasai felly, nis gallesid siarad am dano fel am fab. Ac yn 3, Oherwydd mai bod gwahanol i Dduw ydyw. Amlwg yw, gan hyny, debygwn, nad oedd dim a fynai cyffes ffydd Pedr â *nattur* Crist, beth bynag oedd, ond yn unig ei swydd; ac i'r diben o gael eglurhad pellach ar y frawddeg, nid oes neb yn fwy cymhwys na'r un person drachefn i esponio ei eiriau ei hun. Darfu i Pedr, fel y mae yn hysbys, wedi adgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, gael ei ddanfon â chenadwri neillduol neu arbenigol i argyhoeddi Cornelius ac i ddysgu iddo egwyddorion cyntaf y grefydd Gristnogol, a thyma'r ffydd y mae yn esponio i Cornelius mewn perthynas i'r Messiah; ïe, dyma'r ffydd y mae yn osod ger ei fron mewn perthynas i'n Harglwydd Iesu Grist: "Y modd yr eneiniodd Duw Iesu o Nazareth â'r Ysbryd Glân ac â nerth, yr hwn a gerddodd o amgylch gan wneuthur daioni; ac iachau pawb a'r oedd wedi eu gorthrymu gan ddiafol, oblegid *yr oedd Duw gydag ef.*" "A ninau ydym dystion o'r pethau oll a wnaeth efe yngwlad yr Iuddewon ac yn Jerusalem; yr hwn a laddasant, ac a groeshoeliasant ar bren, Hwn a gyfododd Duw y trydydd dydd, ac a'i rhoddes ef i'w wneuthur yn amlwg." (Actau x. 38, &c.) Amlwg yw oddiwrth y geiriau ydym wedi grybwyll, debygaf, nas gall yr hwn a gafodd ei eneinio â'r Ysbryd Glân ac â nerth fod yn Dduw; ond i'r gwrthwyneb yn gwbl; oblegid pwy glywodd son erioed fod y Jehovah tragwyddol ac anfarwol wedi cael ei eneinio gan un arall? Byddai yn wrthun ac yn rhyfyg o'r mwyaf, i'n tyb ni, i ddweud y fath beth. Hefyd, pe buasai Iesu o Nazareth yn Dduw, amlwg yw nad oedd yn angenrheidiol nac yn bosibl iddo dderbyn y fath eneiniad gan un arall. A thrachefn, amlwg yw nas gellir cymhwyso y frawddeg, "Yr hwn a laddasant ac a groeshoeliasant ar bren, a'r hwn a gyfododd Duw y trydydd dydd," &c., at yr anfarwol a'r anghyfnewidiol Jehovah. O ganlyniad, yr ydym yn cael ein gorfodi i gredu yr un peth mewn perthynas i Iesu o Nazareth a'r apostol Pedr, a'r apostolion ereill: sef, mai Duw, ei Dad ef a'n Tad ninau, ddarfu ei eneinio ef â'r Ysbryd Glân ac â nerth; ddarfod iddo ei ddonio â phob doethineb a gwybodaeth goruwchnaturiol; mai Duw oedd wedi rhoddi i'r Iesu yr athrawiaeth ogoneddus a ddysgodd; ac ei fod wedi cadarnhau a selio ei gommissiwn dwyfol, trwy y gwyrthiau a gyflawnodd trwyddo; ac wedi iddo gael ei ladd gan ei elynion a'i osod mewn bedd, credwn i Dduw ei gyfodi ef o feirw, ac i'r dysgyblion fod yn dystion o hyny, fel y gallent wedi hyny ddwyn tystiolaeth i'r digwyddiadau, y ffeithiau, a'r gwirioneddau hyny ar y rhai y mae ein crefydd wedi ei sefydlu; ac fel y gallent ddangos i'r oes yr oeddent yn byw ynddi, yn gystal a phob oes hyd ddiwedd amser, mai y gwirionedd yr oeddynt yn haeru ac yn ymdrech o'i blaid.

Yn awr, gofynaf, gyda pha briodoldeb y gellir cyhuddo yr Undodiaid o anghrediniaeth yn y Messiah, pan y maent mewn gwirionedd yn credu yr un peth yn gymhwys mewn perthynas iddo ag oedd yr apostol Pedr; yr hwn a gafodd ei gyhoeddi yn wynfydedig gan ei Feistr: ïe, ar gyffes ffydd yr hwn y dywedodd y buasai i'w "eglwys i gael ei hadeiladu, a phyrth uffern nis gorchfygant hi," medd yr Iesu. Nid oes dim a fyno crediniaeth yn y Messiah â'i nattur, pa beth bynag oedd; ond ei *genadwri* yn unig. A pha un y darfu i Dduw, mewn gwirionedd, ei eneinio ef â'r Ysbryd Glân ac â nerth; ïe, pa un y cyfododd efe ef oddiwrth y meirw fel blaenffrwyth i'r rhai a hunasant—dyna yw y cwestiwn. Ac y mae yr apostol Paul yn edrych ar y pwnc, ac wedi llefaru arno, yn yr un goleu yn gymhwys yn y bymthegfed benod o'r Epistol cyntaf at y Corinthiaid, pan yn dweud fel y canlyn, adn. 14, 15:—"Ac os Crist ni chyfodwyd (ac nid, os *Duw* ni chyfodwyd) ofer yn wir yw ein pregeth ni, ac ofer hefyd yw eich ffydd chwithau. Fe a'n ceir hefyd yn gau-dystion i Dduw, canys ni a dystiasom am Dduw iddo gyfodi Crist, yr hwn nis cyfododd efe; os y meirw ni chyfodir." Felly yr ydym yn gweled mai y prif bwnc mewn golwg gan yr Apostol, a'r prif bwnc y mae galwad ar bawb Cristnogion i'w gredu ydyw, nid mai Duw oedd yr Iesu, ond i *Dduw ei gyfodi* ef oddiwrth y meirw. Y maent yn ddau beth hollol wahanol a chroes i'w gilydd, i gredu fod y Messiah yn Dduw a bod Duw wedi ei gyfodi ef oddiwrth y meirw.

Ond dichon y gofynir ymhellach, paham y mai cred yn adgyfodiad yr Iesu oddiwrth y meirw o gymaint pwys? Wel, fe ga yr apostol Paul atteb drosto ei hunan, fel y gwelwn ef yn gwneuthur yn ei Epistol at y Rhufeiniaid: "Ac a eglurwyd yn Fab Duw, neu y Messiah, mewn gallu, yn ol yspryd santeiddiad trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw" (pen. i. 4). Nid oedd yr adgyfodiad yn profi dim mewn perthynas i nattur y Messiah, ond yn unig dangos ac amlygu yn eglur i bawb mai efe oedd yr offeryn oedd Jehovah wedi ei appwyntio i ddwyn hyny i'r amlwg. Gan hyny, pa beth bynag oedd natur yr Iesu, fel y dywedasom yn barod, nid yw hyny ond o ychydig pwys mewn cydmariaeth i'r ffaith mai efe oedd y Messiah. Ar yr un pryd, yr wyf yn meddwl y byddai yn ddoethach ac yn well i ni bawb o honom i lynu wrth iaith y Testament Newydd, yn hytrach na gwrando ar chwedlau offeiriadon ac ereill, er cael gweled a deall yn iawn beth oedd ei nattur. Yno yr ydym yn cael mai yr un peth a ninau yr oedd yn gymhwys o ran ein nattur. "Cafodd ei demtio ymhob peth yr un ffunud a'i frodyr; cnawd o'n cnawd ac asgwrn o'n asgwrn," &c.

(I'w barhau.)

ESPONIADAU.

MEGIS weithiau, pan yr ydym yn myned at ein gwaith yn yr Haf, yr ydym yn cael ein blino gan heidiau o drych-bryfaid *(insects)*, y rhai ydynt yn llanw yr awyr â si furmwrol, ac yn aflonyddu y llygad a'r clust, ac yn niweidio pob synwyr, felly y mae rhai adnodau yn y Beibl; y maent wedi eu dygnu *(infested)* gymmaint gan esponwyr, a dadleuwyr, a duwynyddwyr, a Christnogion cywreingar, fel nas gellir myned yn agos attynt ond trwy haid o gymdeithasiadau asifylaidd, y rhai ydynt yn syfrdanu y rheswm, yn gwyrdroi barn, ac yn dwyn ymaith yr holl fwyniant calon oeddent wedi eu bwriadu i roddi. Yr unig ffordd i ddyfod at y gwirionedd ydyw eu dihattru o bob gwybodaethau rhagflaenol.

BEECHER—*Life Thoughts, p.* 128.

Y DRINDOD.

Ddarllenydd Hynaws,—A ydwyt ti yn credu yn y Drindod? Gwyddost fod yng Nghredo Saint Athanasius esponiad helaeth arni, a mwy na hyny, y mae yn dywedyd, oni chreda pob dyn y ffydd hon yn gyfan ac yn ddihalog, diammeu y collir ef yn dragywydd. Y mae o bwys i ni o ganlyniad, os gwir hyn, i ystyried pa un a ydym yn ei chredu ai nid ydym. Y mae nifer fawr o Drindodau i gael, y rhai ydynt yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth eu gilydd; ond y maent yn cytuno oll yn hyn, eu bod o bwys yngolwg y rhai ydynt yn eu dal, ac yn hyn etto, sylwch, eu bod oll yn annealladwy. Addefir yn gyffredin yn awr mai nid Athanasius oedd awdwr y gredo sydd yn myned wrth ei enw ef, ac ni wyddis pwy oedd;* ond y mae rhai yn barnu mai Vigilius Tapsensis ydoedd.† Fe synnwyd Gennadius, patriarch Constantinople, gymmaint wrth ei darllen, fel y dywedodd yn onest mai gwaith dyn meddw ydoedd.‡ Felly y mae yn amlwg nad ydyw pawb yn barnu yr un peth am ei gwerthfawrogrwydd. Dywedodd Coleridge ei bod yn *heresiol* yn ei bod yn gadael heibio, ac yn ddistaw yn gwadu israddoliaeth y Mab i'r Tad.§ Ac etto yr oedd y gwr boneddig hwn yn Drindodwr cadarn: "Yr wyf yn cwbl gredu fod y Tad a'r Mab a'r Yspryd Glân yn un gwir Dduw; ond nid esponiad Sherlock o'r athrawiaeth," meddai efe.|| Wele yn canlyn daflen yn gosod allan ei esponiad ef o'r athrawiaeth dywyll ac anesponiadwy hon:—

"Yn y Drindod y mae—1. Hunandod. 2. Aralldod. 3. Cyffredindod. Gellwch osod allan y drefn fel yma:—

"Duw, yr Ewyllys neu yr Unrhywiaeth anymddibynol—Prothesis. Y Tad—Thesis *(Gosodiad)*. Y Mab—Antithesis *(Gwrthosodiad)*. Yr Yspryd—Synthesis *(Cyfosodiad)*.

"Y Drindod yw, 1. Yr Ewyllys; 2. Y Rheswm neu'r Gair; 3. Y Cariad neu'r Bywyd. Fel yr ydym yn gwahaniaethu y tri yma, felly y mae yn rhaid i ni eu huno yn un Duw. Rhaid i'r undeb fod mor ardderchog a'r gwahaniaethiad. . . . Hon yw fy ffydd i: Duw yw yr Ewyllys Anymddibynol: hwn ydyw ei Enw ef, a'i ystyr. Hwn ydyw'r Hypostasis. Fel yn cenhedlu ei Aralldod, y Jehovah, yr Amlygedig, efe yw'r Tad; ond y mae'r Cariad a'r Bywyd—yr Yspryd—yn deilliaw oddiwrth y ddau."*

Yn awr, ddarllenydd anwyl, ar ol myfyrio tipyn ar y daflen uchod, hoffwn wybod ba faint gwell ydwyt, faint yn nes ydwyt i ddeall ei dirgelwch gogoneddus, nag oeddit wrth ddarllen Credo Athanasius. Pa faint mwy *sobr* i'r olwg ac i'r deall ydyw hon na'i eiddo ef. Ond ystyria, nid ydyw i'w deall, am hyny 'does achos i ti ofni, canys "Hwn yw y dirgelwch mawr—Tri ag Un, ag Un a Thri. Gwnaethpwyd dynion ac angylion er mwyn yr olygfa hon: nis gallwn ei hamgyffred, am hyny y mae yn rhaid i ni ei hedmygu. *O luminosissimae Tenebrae!* Goleuni tywyllwch. . . . Yr oeddent yn fwy yn Dri oherwydd yn Un, ac yn fwy yn Un oherwydd yn Dri. Pe na byddai dim yn ein tynnu i ddymuno ymddattod ond hyn, byddai yn ddigon." Dr. Thomas Manton.†

"Y mae fod yr un yn Dad ac yn Fab i'r un person (i Ddafydd), yn dwyn ei hunan i fodolaeth, yn achos ac yn effaith hefyd, ac felly y copi yn rhoddi

* Smith—Clan. Dict. †Priestley—Vol. ix. p. 45. ‡*Christian Freeman*, September, 1861.
§ Wilson—Unit. Principles, p. 270. || Ibid, 287. * Ibid, 295. † Ibid, 319.

bodolaeth i'r gwreiddiol, yn ymddangos, ar yr olwg gyntaf, mor rhyfedd ac anghyfrifadwy, fel, oni bai ei fod i gael ei addoli fel dirgelwch, cawsai ei wfftio fel gwrth-ddywediad."*—Dr. R. South. Felly, os ydyw yn annirnadwy, yn annealladwy, ac yn afresymol, sut y mae yn bossibl ei chredu; oblegid dywed yr awdwr olaf ymhellach, "Nis gallwn ni gredu peth ddim ymhellach nag yr ydym yn deall y geiriau *(terms)* yn y rhai y mae wedi ei osod allan i ni."† Y mae hyn yn ddigon rhesymmol, ond wele i ni rywbeth mwy gobeithiol etto; y mae yr enwog Baxter yn dywedyd, ‡"Pell fyddo hi oddiwrthyf fi i feddwl y caiff pob Cristion plaen ei ddamnio, yr hwn nid ydyw yn gwybod beth ydyw person yn y Drindod, fel yn dragwyddol difodolaeth, pan y mae yr holl ddifinyddion a'r *school wits* yn gystal ag addef, ar ol ymrysonau maith mewn geiriau annealladwy, nad ydynt hwy ddim yn gwybod eu hunain." Y mae yn dywedyd hefyd, §"Yr wyf yn fwy selog nag y buais erioed dros ddwyn y ffydd Gristnogol yn ol i'w symlrwydd cyntefig, ac yn fwy hyderus na chaiff yr eglwys byth heddwch na chyttundeb, nes gwneir felly, gyda golwg ar y profiad (*test*) o ffydd a chymmundeb dynion."

Pe darllenai pob dyn yr Ysgrythyrau yn rhydd oddiwrth bob rhagfarn, byddent yn debyg iawn o ddyfod i oleuni symlrwydd cyntefig y ffydd Gristnogol. Ond y mae mor naturiol i ddyn i edrych ar bob adnod trwy y gwydrau a dderbyniodd gan ei dad a'i fam, fel y mae braidd yn ammhosibl gweled gwir ystyr geiriau, gannad pa mor syml bynnag y byddont. Y mae rheswm y dyn yn dangos ar unwaith iddo ystyr y geiriau, ond y mae rhagfarn yn sisial yn ei glustiau, nid felly, edrych etto; ac yna y mae megys llen yn tyfu dros y llygaid, fel nad yw y dyn mwy yn alluog i ganfod pethau yn eu lliw priodol. Yn y llen yma, ac nid yng ngoleuni Rheswm nac yng ngoleuni yr Ysgrythyrau y mae athrawiaeth y Drindod. Tynner ymaith y llen ynte.

BIBLIOPHILUS.

ETHOLEDIGAETH.

YR wyf yn cofio clywed stori gan Dr. Evans, yr hwn a fu unwaith yn weinidog Calvinistaidd yn Bristol. Yr oedd wedi cael llawer iawn o ddadleuon gydag un o'i wrandawyr, yr hwn oedd yn honni ei fod yn un o'r etholedigion, ond yr hwn yr oedd efe yn gwybod ei fod yn arwain bywyd ammhur, mewn rhagor nag un ffordd. Un tro cyfarfyddodd y Doctor ag ef mewn stad o feddwdod, a chan feddwl ei argyhoeddi a'i ddiwygio ar yr un pryd, gofynodd iddo, "os oedd yn tybied fod ei gyflwr presennol y fath ag oedd yn rhagddangos plentyn i Dduw?" Y dyn, wedi cadarnhau ei hunan yn erbyn y wàl, a ofynodd i'r Doctor beth oedd ei feddwl? "Beth!" meddai'r gweinidog, "yr wyf yn meddwl eich bod chwi yn feddw—yn anifeilaidd o feddw!" "Dr. Evans," meddai'r adyn, "yr oeddwn i yn gwybod yn wastad nad oeddech chwi ddim yn deall yr Efengyl! *Felly yr ydych chwi yn meddwl y gall ychydig o ddiod olchi ymaith waed Crist oddiar enaid y crediniwr!*" Y mae miloedd wedi ymresymmu fel y dyn penwan hwn, i'w dinystr eu hunain yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw. Ië, y mae y twyll ofnadwy hwn, yr hwn sydd wedi dinystrio ei fyrddiynau, yn aml wedi cael ei *wthio* ar feddyliau anlladwyr wrth farw, a hyny gan ddynion duwiol, fel sylfaen nid o obaith isel, ond o hyder pendant. Y mae Ustusiaid dysgedig wedi ei ddal allan yn

*Wilson—Unit. Prin. Conf., p. 321. †Ibid, p. 325. ‡Ibid, p. 250. §Ibid, p. 343.

eu hareithiau i fileiniaid calon-galed, uwchben y rhai y maent yn cyhoeddi dedryd marwolaeth am y troseddau mwyaf ysgeler erbyn Duw a dynion. Y mae'r dyhiryn gwaethaf, a'r adyn condemniedig wedi myned o'r byd, a iaith disgwyliad gogoneddus ar eu gwefusau, "trwy waed y Gwaredwr;" ac y mae'r *byd crefyddol*, neu'r hyn sydd yn galw eu hunain y byd crefyddol, yn lle arswydo oherwydd hyn oll, a gofidio o'i herwydd, ac ymdrechu ei wrthsefyll, wedi cael ei loni a'i adeiladu a'i foddloni gan hyn oll: ac wedi dàl allan draethiadau y dynion yma wrth farw, fel profion argyhoeddiadol o effeithioldeb gwaed cymmodol Crist; ac wedi gwasgar newyddion am y fath bethau trwy'r wlad fel arwyddion o lawenydd mawr. A pha beth mae y byd crefyddol wedi bod yn gwneud o hyd, ond torri i lawr y cyffiniau y mae Duw a dyn wedi eu cyfodi yn erbyn euogrwydd, a thangloddio seiliau moesoldeb yn meddwl y cyhoedd?—*Porter's Lectures on the Atonement, p.* 86.

RABBI ELIESER A'R DYN TLAWD.

"Y neb a watwaro y tlawd sydd yn gwaradwyddo ei wneuthurwr ef."—Diar. xvii. 5.

Fel yr oedd y Rabbi Elieser yn dychwelyd o artrefle ei feistr i'w le genedigol ei hun, yr oedd yn teimlo yn hynod o falch, oherwydd y wybodaeth fawr yr oedd wedi ei gasglu. Ar ei ffordd fe ddaliodd ddyn neillduol o afluniaidd a salw, yr hwn oedd yn trafaelu tua'r un dref ag ef. Cyfarchodd y dyn dieithr iddo, trwy ddywedyd—"Hedd i ti, Rabbi." Beth wnaeth Elieser, yn falch oherwydd ei ddysgeidiaeth, yn lle dychwelyd y moesgarwch, ond sylwi ar anffurfiaeth yr ymdeithydd; ac mewn ffordd o wawd, dywedodd wrtho,—"Racca, a ydyw holl drigolion dy dref di mor afluniaidd ag ydwyt ti?" Attebodd y dieithryn, wedi ei synnu wrth ddiffyg moesau Elieser, ac wedi ei gynhyrfu gan y sarhad, "Nis gwn, ond byddai gwell i ti ofyn i'r Celfyddydwr mawr a'm gwnaeth i." Gwelodd y Rabbi ei gamsyniad, a chan ddisgyn oddiar ei anifail, taflodd ei hunan wrth draed y dieithryn, ac attolygodd iddo faddeu bai a gyflawnodd yn ngwylltineb ei galon, a'r hwn yr oedd yn awr yn wirioneddol yn edifarhau ei wneuthur. "Na," meddai y dieithryn, "cerdd yn gyntaf at y Celfyddydwr a'm gwnaeth i, a dywed wrtho, Gelfyddydwr mawr, O! y fath lestr afluniaidd yr wyt wedi wneuthur!" Parhaodd Elieser i ymbil arno, ond yr oedd y dieithryn o hyd yn pallu. Yn y cyfamser cyrhaeddasant ddinas enedigol y Rabbi. Wedi i'r trigolion glywed am ei ddyfodiad cychwynasant yn dorfeydd i gyfarfod ag ef, gan floeddio, "Hedd i ti, Rabbi! Groesaw i ti ein addysgwr!" "Pwy yr ydych yn ei alw yn Rabbi?" meddai'r dieithryn. Pwyntiodd y bobl at Elieser. "Ai efe yr ydych yn anrhydeddu a'r enw Rabbi?" meddai y dyn tlawd: O! na fydded i Israel i godi llawer yn debyg iddo! Wedi hyny adroddodd beth oedd wedi dygwydd. "Y mae efe wedi gwneuthur ar fai, ac y mae efe yn gwybod hyny," meddai'r bobl; "tyred, maddeu iddo; canys dyn mawr yw, hyddysg yn y gyfraith." Wedi hynny maddeuodd y dieithryn iddo, a dywedodd mai ei ddiben wrth fod cyd cyn maddeu, oedd argraphu ar feddwl y Rabbi yr ammhriodoldeb o'r hyn a wnaeth. Diolchodd Elieser ddysgedig iddo, a thra yr oedd yn dal ei ymddygiad ei hunan allan fel rhybudd i'r bobl, cyfiawnhäodd ymddygiad y dieithryn, trwy ddywedyd—er y dylai dyn fod bob amser yn ystwyth fel y gorsen ac nid yn ystyfnig fel y cedrwydd, etto nid yw gwatwar tlodi neu rhyw ddiffyg naturiol ddim yn bechod ag y gallwn ni ddisgwyl maddeuant am dano yn fuan.—*Allan o'r* "Hebrew Tales."

ADGOFION BYR AM Y DIWEDDAR DDR. BENJAMIN FRANKLIN O'R AMERICA.

RHAID i ni gofio nad yw'r ffordd i anrhydedd wedi ei phalmentu â pherlau. Bydded yr Arwyddair, "Gwneyd ein gorau" o'n blaen. Y mae pob peth yn y greadigaeth anifeilaidd yn gwneyd eu gorau, o'r morgrugyn bychan dan y gareg fwsoglyd, yr hwn a weithiai allan ei holl natur, hyd at y morfil yr hwn a ymblesera yn yr eigion dwfn; o'r dryw fach a lam o dwyn i dwyn, hyd at yr eryr cryfadeiniog, yr hwn a chwery yn y glasni uwchben; ac o'r gwybedyn bach, yr hwn a chwery ei edyn bychain yn yr awyr-gylch yn nhes Mehefin, hyd at yr Archangel claerlachar, yr hwn a chwery ei edyn ger bron y *dragywydd orsedd.* Ninnau a ddylem wneyd ein gorau tuag at ein Hiaith, gwneyd ein gorau tuag at ein Cenedl, a gwneyd ein gorau i wasanaethu ein CREAWDWR.

Gadawodd yr anfarwol a'r byth-gofiadwy Benjamin Franklin esiampl i'r byd yn gyffredinol ar ei ol, a saif tra saif mynyddoedd yr Andes ar eu gwadnau ac i gysanu'r las nen, a dinas Philadelphia yn mhen mor; fe saif enw Franklin yn dalgryf a diysgog. Pan y byddo enwau y dynion hyny a ymwthiasant i anrhydedd ar feusydd celanedd a gwaed, wedi myned ar goll, fe fydd enw y *Gwladgarwr hyglod* hwn yn berarogl o flwyddyn i flwyddyn, ac o dymhor i dymhor, fel y blodau a dyfant ar fron yr ardd.

Mae y rhan fwyaf o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD, fe ddichon, wedi clywed neu ddarllen am Benjamin Franklin, yr Argraffydd, yr Anianydd, a'r *Gwladgarwr* enwog hwnw. Mae yn hanes ei fywyd lawer o bethau ag y gallem ni, bechgyn Cymru, ei efelychu ynddynt. Fel y rhan fwyaf o ddynion enwog, gwnaeth ei ffordd i enwogrwydd, o'r radd iselaf a thrwy rwystrau ag oeddynt yn ymosod yn ei erbyn hyd yr eithaf, er cyrhaedd y man anrhydeddus ag y mae ei enw, yn awr a byth, yn feddianu.

Cafodd ei eni yn y flwyddyn 1706. Ei dad oedd ferwedydd sebon a chanwyllau yn Boston, gogledd America. Nid yw yr alwedigaeth hon i'w dirmygu yn y mesur lleiaf, ac ni ddylai un alwedigaeth gael ei dirmygu os bydd yn un onest; ond y mae hon yn dangos o ba le y dringodd y gwr mawr hwn—o'r hen ganwylldŷ i balas anrhydeddus, ac o blith argraffwyr tlodion i fysg tywysogion ac arglwyddi. Yr oedd gan ei dad deulu lluosog iawn; dim llai na dau-ar-bymtheg. Oherwydd lluosogrwydd y teulu, a'r gelfyddyd oedd ei dad yn ddilyn ddim yn un enillfawr, nis gallesid rhoddi addysgiaeth i'r plant cystal ag y dymunasid. Danfonwyd Benjamin i Ysgol Ramadegol pan yn wyth mlwydd oed; oherwydd yr oedd ei dad yn bwriadu ei ddwyn i fynu i fod yn offeiriad, ac yr oedd y pryd hyn yn cael y cymeriad o fod yn offeiriad y teulu. Ond er galar iddo, ni chafodd aros yno ddim blwyddyn o herwydd ei bod yn rhy ddrud; ond etto yn yr ysbaid byr y bu yno cyfododd i fyny i fod yn y ddosparth uchaf ond un yn yr ysgol. Ymadawodd a'r ysgol hon, a gosodwyd ef mewn ysgol arall i ddysgu ysgrifenu a rhifyddiaeth. Yma y darfu a'i ysgolheigiaeth; o gwmpas dwy flynedd o ysgol i gyd! Pan yn ddeg mlwydd oed cafodd ei alw adref i ddysgu y dirgelwch o dori pabwr at ganwyllau, ac arllwys gwêr i'r fold, yn nghyd a berwi sebon. Ond nid oedd y gwaith hwn wrth ei archwaeth, ac am hyny yr oedd yn bygwth myned i'r môr.

Pan ddaeth ei frawd, yr hwn oedd argraffydd, âg argraffwasg a llythyrenau gydag ef o Lundain, a sefydlu swyddfa yn Boston, gadawodd ei dad iddo fyned

ato i ddysgu y gelfyddyd hono. Yma yr oedd wrth ei fodd, oherwydd yr oedd gwell mantais i gael llyfrau; ac yr oedd ei awydd mor gryf am ddysgeidiaeth, fel yr oedd yn gwerthu ei lyfrau er mwyn cael rhai eraill. Pan oddeutu un-ar-bymtheg oed, daeth o hyd i lyfr ag oedd yn cymeradwyo bwydydd llysieuol, a chredodd yr athrawiaeth yn union. Cynygiodd i'w frawd os rhoddai haner yr arian ag oedd yn myned i'w gynal o fwyd, y buasai ef yn darparu bwyd iddo ei hun; ac felly y bu. Yn y modd hwn daeth yn berchenog a'r lawer o lyfrau gwerthfawr. Yr oedd yn un cynil iawn ar ei amser a'i arian, ac yn wastad yn pregethu "cynildeb pa le bynag yr elai." Ychydig flynyddau ar ol hyn ysgrifenodd "*Poor Richard's Almanac:*" llyfr oedd hwn yn cynwys amryw ffyrdd o cynilo arian. Daeth i'w ben i ysgrifenu darnau i Newyddiadur ei frawd ag oedd newydd ei godi; ond nid oedd am i neb wybod mai efe oedd yr ysgrifenydd, ac felly yr oedd yn dyeithro ei law, ac yn eu gosod dan ddrws y swyddfa yn y nos. Pan ymgynullai rhai oedd mewn cysylltiad â'r papur yn nhŷ ei frawd, siarader am y darnau hyn, gan eu beirniadu, ac felly yr oedd yn cael gweled pa le yr oedd diffygion. Ond pan ddaeth ei frawd i wybod mai efe oedd yn eu hysgrifenu, triniodd ef yn arw, a dangosodd lawer o atgasrwydd ato. Yr oedd fod brawd yn cenfigenu wrtho yn hollol afresymol; ond bu yr erthyglau hyn a ysgrifenodd yn achos iddo ymadael â Boston, ac aeth ef i Gaeerefrog Newydd mewn llong fechan, heb braidd ddigon o arian i dalu ei gludiad.

Pan gyrhaeddodd, methodd a chael gwaith, a chychwynodd tua Philadelphia. Tei thiodd yr holl ffordd ar ei draed, a'i bocedau wedi eu llanw a'i grysau a'i hosanau; a phan ddaeth i Philadelphia, ac wrth fyned i lawr un o'r heolydd a thorth o dan bob braich, cyfarfyddodd a Miss Read, yr hon wedi hyny a fu yn ffyddlon wraig iddo; yr hon a wnaeth olwg lled chwythig arno wrth ei weled mewn fath wisg dyeithr, o herwydd mai yn ei ddillad gwaith yr oedd a hithau yn ddydd Sabboth. Cafodd waith, ond nid hir yr arosodd, a chymerodd ei daith tua Llundain, lle yr arosodd tua deunaw mis i weithio ei grefft. Pan oedd yn un-ar-ugain oed, dychwelodd yn ol i Philadelphia. Yn awr yr oedd yn meddu y fath yspryd anturiaethus a phenderfynol, fel y mynai gyflawni yr hyn oedd wedi bod yn meddwl am dano.

Wedi iddo ddychwelyd, cyfododd swyddfa mewn cysylltiad a gwr boneddig i argraffu newyddiadur a'i gydolygu. O'r amser hyn cynyddodd mewn bri ac uwchafiaeth yn gyflym, a daeth i droi mewn sefyllfaoedd uchel mewn anrhydedd. Nid hir y bu cyn myned i ymyraeth a phethau gwladwriaethol.

Yn y flwyddyn 1736 cafodd ei bennodi yn ysgrifenydd i'r Cynulliad Cyffredinol (Senedd) Pensylvania, a chafodd ei ethol drachefn a thrachefn mewn Cynulliadau olynol am flynyddau lawer, nes y cafodd o'r diwedd gynrychioli dros ddinas Philadelphia.

Yr oedd yn ddyn ag oedd yn astudio gwahanol wyddorau, ac yn enwedig Trydaniaeth *(electricity)*; gwnaeth ddarganfyddiadau mawrion yn yr athroniaeth hon; ac yn mhlith pethau ereill, y modd i ddiogelu llongau a simneiau uchel rhag cael eu niweidio. Hyspysodd ei ddarganfyddiadau i gyfaill iddo yn Llundain, yr hwn a'u trosglwyddodd i Gymdeithas y Celfyddydau *(Society of Arts)* yn Llundain. Cawsant eu cyhoeddi mewn llyfryn, yr hwn a gafodd ei gyfieithu i amryw ieithoedd mewn byr amser, fel y daeth enw Franklin yn adnabyddus i holl philosophyddion a brenhinoedd y Cyfandir.

Felly na ddiystyrwn ddydd y pethau bychain, ond gwelwn yn hanes Franklin y gall pob plentyn tlawd, gydag ychydig fanteision a phenderfyn-

iad i fod yn ddiwyd, ddyfod yn ddyn defnyddiol a chymeradwy, ac hyd yn oed i eistedd gyda thywysogion a brenhinoedd y ddaear.

Y bedd-argraff canlynol a ysgrifenodd ef ei hun lawer o flynyddau cyn ei farwolaeth :—

CORFF

BENJAMIN FRANKLIN,

ARGRAFFYDD.

Fel clawr hen lyfr, ei gynwysiad wedi ei dori allan a'i ddiosg o'i lythyreniad a'i oreuriad, a orwedd yma yn fwyd i bryfed ; eto y gwaith ei hun ni cha ei golli, am y ca (fel yr oedd ef yn credu) ymddangos mewn argraffiad newydd ac harddach, wedi ei ddiwygio a'i wella gan yr—AWDWR.

Er llesoli ei gyd-ddynion gwnaeth ei oraf-glas i'w dwyn yn rhydd oddiwrth wasgfeuon a thrallodion bywyd, gan y credai yn drwyadl mai dyna yr unig ad-daliad allai ef wneyd i'w Grëwr am ei aneirif drugareddau iddo ; nes y mae ei *enw anwyl* wedi myned yn *ddihareb* drwy holl gyfandir mawr America.

Blaenau Cellan. I. GLAN TEIFI.

DIBEN Y NOS.

YN yr amser presenol o'r flwyddyn, pan y mae'r dydd yn byrhau, a'r nos yn ymestyn, y mae llawer yn anfoddlon oherwydd y cyfnewidiad. Y mae rhai yn dymuno na fuasai dim nos o gwbl, neu o'r hyn leiaf na fuasai'r nosau ddim yn hwy un amser o'r flwyddyn nag y maent ym Mehefin a Gorphenaf. Ond ffrwyth ffolineb a rhyfyg ydyw dymuniadau o'r fath hyn, ac y maent yn dangos yr anwybodaeth mwyaf ; oblegid, pe byddai dynion yn ystyried y manteision sydd yn cyfodi oddiar gyfnewidiad dydd a nos, ni fuasent fel yma yn dangos eu diffyg barn, nac yn gwneuthur y fath achwyniadau disail ; ond buasent yn hytrach yn bendithio Duw am y breintiau y maent yn fwynhau oddiwrth y nos. Yr ydym yn teimlo lles moesol nos yn ei fod yn rhwystro cwrs llawer o bechodau. Yn ystod oriau tywyllwch y mae'r drwg yn gorfod cymeryd gorphwysdra, ac y mae rhinwedd ormesedig yn cael ychydig funudau o esmwythâd, a rhyddhâd oddiwrth drueni ; y mae'r marsiandwr anghyfiawn a thwyllodrus yn peidio twyllo ei gymmydog, ac y mae mil o ddrygau yn cael eu rhwystro yn eu cychwyniad.

Pe na buasai dim nos, O ! gymmaint o bleser ac addysg y buasem yn golli ! Buasem yn colli rhyfeddodau y greadigaeth, y rhai ydynt yn weledig yn ffurfafen serenog y nefoedd ! Yr ydym yn awr bob nos yn galluo myfyrio ar ardderchawgrwydd Duw fel y mae yn cael ei osod allan yn y ser, tra yr ydym yn cyfodi ein eneidiau tuag atto ef mewn diolchgarwch gostyngedig a pharchus. Os ydyw ynte bob cyfleusdra sydd yn dwyn Duw i'n meddyliau yn werthfawr, pa faint y dylem werthfawrogi y tymmor hwn, yr hwn sydd mor nerthol yn dadgan perffeithiadau Duw !

Y mae nos yn amser sydd wedi ei addasu yn dda at fyfyrdod ac ystyriaeth. Nid yw terfysg a diofalwch y dydd yn gadael ond ychydig hamdden i hunanfyfyrdod ; nac yn rhoddi ond ychydig gyfleustra i neilldio ein serchiadau

oddiwrth y ddaear, ac i dwyn ein hunain i ystyried yn dlwys ddyledswyddau ein sefyllfa, a'r diben i'r hwn y'n crewyd ni. Y mae tawelwch y nos yn neilldool yn addas at y myfyrdodau iachusol yma: gallwn bryd hyny ymgynghori a'n calonnau heb rwystr, a chyrhaeddyd y wybodaeth bwysig o adnabod ein hunain. Pryd hyny fe gaeir yr enaid ei hun at ei uoedd, a chyfeiria hwynt at y nyneiau hyny a berthynant i'w ddoethyddwch tragwyddol. Yn y munydau hyny o dangnefedd a thawelwch, gallwn buro ein calonnau oddiwrth halogrwydd y byd, a nerthu ein hunain gyfeiryn a themtasiwn ac esiamplau hudol y rhai hyny ydynt yn nofio i lawr ar lyd ffrydiau pleser. Gallwn bryd hyny fyfyrio ar farwolaeth, a meddwl am y dyfodol: y mae unigrwydd tawel ein hystafelloedd yn ffafriol i feddwl am grefydd, ac y mae ein eneidiau yn dyfod yn fwy fwy i ddymuno am rinwedd. Bydd i i ni yn te yn lle grwgnach cherwyd cyfnewidiau goleuni a thywyllwch, i bod yn ddiolchgar am danynt; a phob nos, cyn gorwedd i gysgu, diolchwn am y tymmor, yn yr hwn yr ydym wedi dyfod i well adnabyddiaeth o honom ein hunain, ac o'r petheu hyny a berthynant i'n iechydwriaeth a'n heddwch tragywyddol.

Medi 23ain.

C. C. Sturm.

Y WINWYDDEN DDIFFRWYTH.

Y mae rhai dynion yn profi eu hunain yn y dull hyn. Y maent yn eistedd i lawr, ac yn ymdrechu adalw eu holl feddyliau, eu holl deimladau a'u gweithredoedd yn ystod y dyod, ac yna y maent yn gofyn iddynt eu hunain, "A ydwyf fi yn hoffi darllen fy Meibl?" Yr wyf yn credu fy mod. "A ydwyf yn hoff o ddydd Sul?" "Ydwyf, ar y cyfan, gyda'r gerddoriaeth a phob peth arall, yr wyf ya meddwl fy mod yn leicio dydd Sul." "A ydych chwi yn ymhoffi mewn ymddiddanion crefyddol?" Ydynt, os gallant gael eu dewis o'r bobl, y maent yn meddwl eu bod yn ymhoffi mewn ymddiddanion crefyddol. Ni fuasai'r winwydden byth mor dawled a phrofi ei hunan yn y modd yna, ond tybiwch ei bod, a'i bod yn galw, "Gwreiddiau, a ydych chwi yn mwynhau bod lawr ya y pridd yna?" Yndym, yr ydym ni yn mwynhau bod lawr yma yn y pridd. "Cyff, a ydwyt ti yn leicio bod maes yna yn yr haf?" "Ydwyf yn yr haf." Dail, a ydych chwi yn hoff o donno yn yr haul a'r awyr?" "Ydym ni yn hoff o'r haul a'r awyr: ac wedi ei boddioni, y mae yn dywedyd, "Gwiawydden garcyns ydwyf." Ond y mae'r garddwr yn sefyll ar bwys, yn dywedyd, "Yr hen beth d'werth! tybiais ddeg *dollar* am y toriad, ac yr wyf wedi ei ddigeingcio a'i gwrteithio, ac wedi dysgwyl flynyddau am y grawnwin du Hamburg oedd i ddod arno, ond nid yw wedi dwyn dim ond dail." Nid yw efe yn hidio dim fod y gwreiddiau yn caru'r pridd na'r cyff yr háf. Nid yw waeth ganddo pe byddai pob dalen yn ymehangu mor llydan a Sahara yn ei ddiffrwythder. Ffrwyth y mae efe am gael. Yn awr y mae darllen y Beibl yn debyg i'r gwreiddiau yn y pridd, a hoffi dydd Sul yn debyg i'r cyff yn yr háf, a leicio ymddiddanion crefyddol yn debyg i'r dail yn yr haul a'r awyr. Os nad yw crefydd yn dwyn ffrwyth yn y bywyd, nid yw rhai hyn oll ond diwerth ynglŷn Duw, megis ag y mae y winwydden anffrwythlon ynglŷn y garddwr.

H. W. Beecher.

Ymholiadau.

LLYTHYR X.

Atteb i Llythyr IV. Mr. Jones.

Cywir Ddarlleniad 1 *Tim.* iii. 16.

Mr. Gol.,—Y mae'n llawn bryd, bellach, i'm sylwadau ar 4ydd llythyr Mr. Jones gael ymddangos yn yr Ymofynydd. Y mae Mr. Jones wedi cael eithaf chwareu teg gennych; er hynny, y mae'n dewis aros yn fud. Efallai mai hynny sydd oreu iddo. Ond at fy sylwadau bellach.

Dywed Mr. J.—1. "A ydyw yn debyg o gydweddu â rhanau eraill yr adnod? Rhaid fod ho yn rhagenw penodol neu amhenodol," &c. Yna y mae ef yn ymdrechu gwneuthur yn ddifyr, ond ar ei draul ei hun yn hollol druan. Ni amcenais i ddwyn yr enghreifftiau a sylwa ef arnynt i brofi ond *un peth*, sef ei fod ef yn esgeulus wrth ysgrifenu: profais hynny, ac ni chynygiodd fy atteb. * * Ond yn lle addef ei esgeulusdod fel dadleuwr teg ac onest, y mae fel *special pleader* yn ymdrechu gwneyd ffolineb o'r adnod mewn dadl, trwy gymhwyso'r adnodau a ddifynais i brofi ei esgeulusdod ef, at yr adnod honno. Ond y mae ei esgeulusdod ef yn aros er hynny, ac aros a wnaiff hefyd: ac felly, tra parhao ei esgeulusdod ef, heb ei wrthbrofi, erys fy ymresymiad innau yn gadarn.

Y mae Mr. J. yn iawn pan yn dywedyd fy mod i yn cyssylltu ho â *musterion*, dirgelwch; ond nid yw yn hollol iawn ynghylch fy nghyfieithiad o'r adnod, er i mi ei roddi unwaith yn yr Ymofynydd; cywirais ef ar ol hynny fel hyn, "Mawr yw dirgelwch duwioldeb a ddatguddiwyd (nid *ymddangosodd*) yn y cnawd." Dywed Mr. J., "Beth ymddangosodd yn y cnawd? Y dirgelwch, gan mai dyna yr unig ragflaenydd i'r rhagenw. Felly, y dirgelwch a gyfiawnhawyd yn yr Ysbryd, a welwyd gan angylion, &c. * * * Rhaid i Mr. E. addef fod rheolau iaith yn gofyn i'r peth fod yn wrthddrych (*subject*) yr holl ferfau—ymddangos, cyfiawnhau, gweled, pregethu, credu," &c. Mewn attebiad yr wyf yn sylwi mai nid bob amser y mae ysgrifenwyr y Testament Newydd yn cadw rheolau iaith, ond yr wyf yn credu eu bod yn cadw oddiwrth wrthuni yn well na Mr. Jones o lawer. Ond am y *subject*, y mae gennyf awdurdod lled dda yngolwg Mr. J. ei hun dros feddwl fod y *subject* yn cael ei newid yma; sef ei esboniad ef *ei hun*. Y mae ef ei hun o'r farn hyn, neu yn enog o wrthuni amlwg; ffolineb pendant. Ond at ei esboniad ef. "Rhaid i bawb addef fod y ffaith yma yn ddirgelwch mawr, Duw ymddangosodd yn y cnawd; er hyny mae yn eithaf gwir. Er nad oedd dynion yn gweled y priodoldeb o hynny, meddylient mai twyllwr oedd *Iesu*. Cyfrifent ef wedi ei faeddu, ei daro gan Dduw, a'i gystuddio. Ond cyfiawnhawyd ef gan Dduw (yr Ysbryd Glân)." Yn awr, a ydyw Mr. J. ddim wedi newid y *subject* yma. *Iesu* sydd yma gan Mr. J., Paham na ddywedasai "Meddylient mai twyllwr oedd" *Duw*. "Cyfrifent ef, sef Duw, wedi ei faeddu, ei daro gan Dduw, a'i gystuddio." Pwy erioed fu'n meddwl fod *Duw* wedi maeddu, taro, a chystuddio *Duw*; credent fod *Iesu* wedi ei faeddu, &c., a Iesu ddywedwch chwithau, Mr. J. Y mae'r *subject* wedi newid; ni fu neb erioed yn credu fod Duw, fel y cyfryw, wedi ei faeddu. Ni fu neb erioed yn credu fod Duw, fel y cyfryw, yn dwyllwr, ac nis gallasent chwaith, a chredu mai Duw oedd. Felly mae'r *subject* wedi newid, neu y mae eich esboniad yn anwiredd noeth, yn gosod allan yr hyn ni fu erioed, na allai fod byth: am hynny, gyda phriodoldeb y dywedasoch "meddylient mai twyllwr oedd *Iesu* ac nid *Duw*. Dywed Mr. J. ymhellach, "Yn *narostyngiad a marwolaeth* yr Iesu gwelodd yr angylion fwyaf o Dduw," &c. Yma etto Iesu yw *subject* y gweled, a byddai yn wrthun meddwl dim arall. Beth! yn narostyngiad a marwolaeth Duw gwelodd yr angylion fwyaf o Dduw, &c. Ffolineb amlwg Mr. J., gwrthuni noeth. Duw'n cael ei ddarostwng, Duw'n marw, nid dirgelwch 'mo hono; nage, ond amhosiblrwydd hollol, croes-ddywediad pendant. Ond nid ydych chwi eich hun yn dywedyd hynny, eithr Iesu yw'r *subject* gennych, felly yr ydych wedi ei newid: ond, serch hynny, dewiswch yr ochr a fynoch. Dywedwch, os mynwch, na oddef rheolau iaith ddim i chwi newid y *subject*, yna y mae eich Duw wedi cael ei *ddarostwng*, wedi marw. Beth ddaw o'r byd nawr, Mr. J.?"—"A bregethwyd ymhlith y

Cenhedloedd." Beth, yr athrawiaeth a ddysgai Crist," ebe Mr. J.; "nage, ond Crist ei hun, a hwnw wedi ei groeshoelio." Os nad yw'r *subject* wedi newid, paham na ddywedasech fel hyn, "Beth, yr athrawiaeth a ddysgai *Duw*? nage, ond Duw ei hun, a hwnw wedi ei groeshoelio." Yna, ni fuasai dadleu â chwi ymhellach. Felly, os nad yw'r *subject* wedi newid, y mae eich Duw chwi wedi ei ddarostwng, marw, a'i groeshoelio. Nid rhyfedd fod dynion yn cyfrif fod Duw o'r fath hyn wedi ei faeddu, oblegid fe gafodd ei ladd a'i groeshoelio. "Gwir," ebe Mr. J., "fod yr apostolion yn pregethu athrawiaeth Crist;" athrawiaeth Duw ddylasai ddywedyd, os na oddef rheolau iaith i'r *subject* gael ei newid, "ond i'r credinwyr, ac nid i'r cenhedloedd a gredent yndd'o yn y byd. Y person etto ac nid yr athrawiaeth *yn benaf*," Actau viii. 37 —Felly dyma newid y *subject* yn rhanol, o leiaf, "ac nid yr athrawiaeth yn benaf." "A gymerwyd i fynu i ogoniant. Trwy drugaredd, nid yw yr athrawiaeth wedi gadael y byd," ebe Mr. J. Dywedais innau, ac yr wyf yn ei ail-adrodd etto, "Trwy drugaredd nid yw Duw wedi gadael y byd." Anghofiodd Mr. J. ddangos beth ddeuai o'r byd wedi i Dduw fyned i ogoniant. Efallai na wnaiff gofio atteb hyn etto. Os felly, bydd darllenwyr yr YMOFYNYDD yn gwybod pa'm. Felly, Mr. J., gan eich bod chwi eich hun *wedi* newid y *subject;* ai genych chwi yn unig y mae'r hawl i wneuthur felly? Ond y mae genyf awdurdod arall, ymron c'uwch a Mr. J., hyd yn oed yn ei farn ef, sef ei brif awdurdod ef ei hun—Henderson. Er fod Henderson yr un farn a Mr. J. pan yn sylwi ar *musterion* fel *subject;* ond pan yn sylwi ar y gair Duw fel *subject* dywed fel hyn: "Y mae'r gwrthddadl penaf a ddygwyd ymlaen yn erbyn Theos, fel darlleniad cywir y dernyn, yn sylfaenedig ar anghytundeb tybiedig o gyssylltu y gair hwn a'r gosodiad olaf a haera, fod Duw wedi ei gymeryd i fynu i ogoniant; ond y mae'r anhawsdra yn diflanu y fynud yr ystyrir, fod y meddwl, ar ol i'r datganiad Theos ephanerothé gael ei dderbyn, o angenrheidrwydd yn cyssylltu *(associates)* y meddwl sarks neu'r natur ddynol a'r natur ddwyfol, ac yn gwahaniaethu rhwng yr hyn a ellir ei ddywedyd am un, yr hyn a ellir ddywedyd am y ddwy yn gyssylltiedig."—*Henderson's Great Mystery, p.* 85. Felly y mae'r meddwl yn gallu'n rhwydd newid y *subject* fel byddo'r achos yn gofyn. Os felly, y mae fy meddwl innau yn gallu gwneuthur yr un peth, yn gallu myned oddiwrth y dirgelwch at Iesu, trwy yr hwn y datguddiwyd y dirgelwch, pan fyddo'r synwyr yn gofyn hynny. Ond y mae gennyf un awdurdod etto i'w ddwyn ymlaen ar y pen hwn, boddlon 'does bossibl gan Mr. J. ei hun, gan mai ei awdurdod ef ydyw, sef y dysgedig Dr. John Jones. Y mae'r dernyn yn yr un llythyr a ddifynodd Mr. J.; ond ni wyddai ef ddim am dano, o herwydd na ddifynodd Henderson ddim o hono; y dernyn nesaf o flaen yr hyn a ddifynodd Mr. J. allan o Henderson ydyw hefyd; a thyma fe: "Logos Duw, yr endid mawr *(the great entity)*, eynllun hollberffaith pethau sylweddol, yn hanfodi ym meddwl Duw, a ddaeth yn ddyn —Dangosodd yr egwyddor hono o anllygredigaeth ei hun yn y mwyaf llygredig o bob peth, sef, mewn cnawd dynol, Iesu, wedi ei wneuthur fel yma yn Fab Duw, oddiuchod, a gyfiawnhawyd, neu a brofwyd ei fod ef felly, trwy Ysbryd Duw, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw, Gwelodd yr angylion, cenadon, neu herodrau *(heralds)* ef, ac ymddiddanasant ag ef ar ol ei ddychweliad i fywyd, megis blaenffrwyth adgyfodiad holl ddynolryw. Yn unol â'r commissiwn a roddwyd iddynt, aethant a phregethasant i'r Iuddewon a'r Cenhedloedd y newyddion da am anfarwoldeb, yr hyn, er cael ei wrthod gan y blaenaf, a dderbyniwyd yn gyffredin."—*Monthly Repository*, vol. ix, p. 121.

"Ond dywed Mr. E. yn bendant," ebe Mr. J., "mai Crist, ar ol ei adgyfodiad, welwyd gan y cenadon. Felly, ynte, Mawr yw dirgelwch duwioldeb, Crist a ymddangosodd yn y cnawd. A oes rhyw synwyr yn hyn? Dirgelwch mawr yw geni dyn yn ddyn! Diau fod Paul yn ynfydu os gosododd ho yn yr adnod," &c, Na, nid oes fawr dirgelwch mewn fod dyn yn cael ei eni yn ddyn; ond nid dyma oedd meddwl yr apostol na minnau. Gŵyr Mr. J. nad dyma oedd fy meddwl i; ond mai dirgelwch mawr oedd yr hyn gafodd ei ddatguddio trwy'r dyn Crist Iesu. Nid wyf yn tybied fod yr apostol yn cyfeirio yn y mesur lleiaf at enedigaeth yr Iesu, ond at y gwirionedd a ddatguddiwyd trwyddo, sef galwad y cenhedloedd, yr hyn sydd yn cael ei alw ganddo

yn ddirgelwch yn fynych heblaw yma; canolfur y gwahaniaeth wedi ei dynu i lawr; yr Iuddew a'r Groegwr heb ddim gwahaniaeth; y ddau yn llefain Abba, Dad, trwy yr un Ysprydd; Duw yn Dad cyffredinol holl deulu dyn; bywyd i ddyfod wedi ei egluro, wedi ei sicrhau i feibion Adda i gyd; maddeuant rhad i'r edifeiriol, &c. Bu hyn yn ddirgelwch; ond dirgelwch wedi ei ddatguddio ydyw yn awr. "Diau fod Paul yn ynfydu," medd Mr.J., os gosododd ho yn yr adnod. Ynfydu, yn wir! Gwelsom yn barod fod Griesbach a Scholz yn dywedyd fod synwyr yn y darlleniad ho yn gystal a'r ddau arall, ac nid y ffolineb penwan a fyn Mr. J. gyssylltu ag ef. Gallaswn ddwyn amryw ddysgedigion, cymaint, beth bynag yn fwy na Mr. J., i ddangos fod synwyr da yn y *relative* ho. Ni ddygaf ond dau neu dri ymlaen yma. Y mae'r gwir ddysgedig Grotius yn dywedyd fel hyn: "Ac yn ddiddadl, &c, Ni thraethir (*agitur*) yma, ebe fe, am bob math o wirionedd, ond am yr hwn na allasai un dyn ei gael allan o hono ei hun, a'r hwn sydd â'r gallu mwyaf i greu (*ingenerandum*) duwioldeb ynom, o flaen yr hwn y mae holl orchymynion ac egwyddorion (*dogmata*) y gyfraith a'r philosophyddion yn diflanu. Y mae'r Lladinwyr yn galw homologoumenos yn *haud dubie*, yn ddiddadl; *plane*, eglur; *extra controversiam*, tuhwnt i ddadl; *profecto*, yn sicr. Y mae homologos yn cael ei osod yn ei le. Y mae'r Efengyl yn fynych yn cael ei galw yn *musterion*, dirgelwch, nid yn unig o herwydd ei bod wedi bod yn guddiedig cyhyd o amser, ond hefyd am na allasai diwydrwydd dynol ei chael allan, Mat. xvi. 17, Y mae y *genitive* eusebeias yma yn arwyddocau yr effaith. Yn yr un ystyr dywedir fod y *gwirionedd* hwn *yn ol duwioldeb*, Titus i. 1. Dywedir yma fod Duw yng Nghrist wedi rhoddi i ni bob peth a berthyn i dduwioldeb, 1 Pedr i. 3."

[*Duw a ymddangosodd yn y cnawd.*]—Y mae yr hen gyfieithwyr Lladin, Syriaeg, ac Ambrosius, y rhai oll addarllenant ho ephanerothe, *yr hyn a ymddangosodd*, yn peri i ni ddrwgdybio'r darlleniad hwn" [Duw]. "Y mae Hincmar Opusculo LV. yn dywedyd fod y Theos hwn wedi cael ei osod yma gan y Nestoriaid. Y mae ho ephanerothe yn gwneuthur synwyr da" [sylwed Mr. J. ar hyn]. "Daeth yr Efengyl nefol hon yn adnabyddus yn gyntaf, nid trwy angylion, ond trwy ddynion marwol, ac mor belled ag oedd eu ffurf allanol yn myned, egwan, Crist a'i Apostolion. Ephanerothe, ethgeli, Syriaeg. Y mae'r gair hwn yn gweddu'n dda i *ddirgelwch* [yr un sylw a wnaethum innau er ys blynyddau yn ol yn yr YMOFYNYDD, er nad oeddwn wedi gweled Grotius ar y pryd], h.y., peth cuddiedig. Felly hefyd yn Col. i. 26. Y mae sarks, *basar* yn arwyddo *dyn marwol*, 2 Cor. v. 16; gwel 1 Ioan iv, 2, a'r hyn a ddywedir yno."

A gymeradwywyd (*approbatum est*) *trwy yr Ysprydd.*]—Profwyd y gwirionedd hwn trwy lawer o wyrthiau. *Pneuma* yw *gwyrthiau dwyfol*, per *metonomian* (*trawsenwad*), yr hwn yw hefyd yn 1 Cor. ii. 4, ac mewn manau eraill. *Dicaiousthai* yma yw profwyd, fel Mat. ii. 19. Gwel y geiriau yno. Felly dywedir *Dicaiousthai* am yr hwn sydd yn gorchfygu mewn cyfraith. Deut. xxv. 1; ychwanega Psalm li. 4."

A welwyd gan angylion.]—"Ie, gyda'r rhyfeddod mwyaf. Dysgodd yr angylion y dirgelwch hwn trwy ddynion marwol, Eph. v. 10; 1 Petr i. 12. Y mae *videre* yn cael ei arfer gan yr Hebreaid am bob dull o gyrraedd gwybodaeth."

A gyhoeddwyd ymhlith y cenhedloedd.]—Nid i'r Iuddewon yn unig y cyhoeddwyd y gwirionedd hwn, ond hefyd i'r cenhedloedd hynny y rhai oeddent ddieithriaid oddiwrth Dduw. Eph. ii. 12; Col. i. 20.

A gredwyd yn y byd.]—Hynny yw, mewn rhan fawr o'r byd. Rhuf. i. 8; Col. 1. 6.

A dderchafwyd yn ogoneddus iawn.]—Yn amlwg oherwydd ei fod yn dwyn oddiamgylch sancteiddrwydd mwy o lawer nag un athrawiaeth arall. *Analambanesthai*, yw cael ei ddyrchafu yn uchel, *sublimiter evehi*, ac y mae'n cyfatteb i'r geiriau Heb. *naala*, *natal*. *En doxe*, yn ogoneddus, Phil. iv. 19; Col. iii. 6; gwel 2 Cor. iii. 8. Felly *Edoxazon*, (A gononeddasant air yr Arglwydd), Actau xiii. 48, Felly y mae Grotius yn gwneuthur synwyr da o'r darlleniad *ho yr hyn*, a'i wneuthur yn *subject* i'r holl ferfau, ymddangos, cyfiawnhau, gweled, &c. Pwyllwch, Mr. J., cyn cyhuddo'r Apostol o ynfydrwydd, gan y gellir tynnu synwyr mor dda o'r ymadrodd.

Rosenmuller—Ni wnaf ond rhoddi crynodeb byr o'i esboniad maith ef. *Pneuma.* Gall mai yr Ysprydd Glân ydyw, neu ddoniau gwyrthiol yr Ysprydd. *A gyfiawnhawyd,* h. y., a gyhoeddwyd, mai efe oedd y Crist, y fath a ewyllysiai gael ei gyfrif, Mab Duw. Gall *pneuma* hefyd arwyddocau yr athrawiaeth Gristionogol, fel y mae'r gair hwn yn cael ei arfer yn fynych yn y Testament Newydd. Yna y meddwl yw: amddiffynwyd achos Crist cyn belled, fel y darfu i'w athrawiaeth sanctaidd a dwyfol ef, a ddeilliodd oddiwrth yr Ysprydd Glân, (*a Spiritu sancto profecta*), gymeradwyo ei hun i'r biliogaeth ddynol gyda'r llwyddiant mwyaf.

A welwyd gan angylion.]—Gellir deall hyn am esgyniad Crist i'r nefoedd. Gellir hefyd ei gyfieithu, A wnaed yn hyspys i'r angylion, oherwydd y mae Grotius yn sylwi fod *videre* yn fynych, &c. Eraill, yr apostolion yw'r angylion yma: oherwydd i'r Iesu ymddangos yn fynych iddynt hwy ar ol ei ddychweliad i fywyd (*in vitam redux*), fel y byddent dystion o'i adgyfodiad. Pregethwyd ei fawredd yn gystal a'i athrawiaeth ymhlith y Cenhedloedd, ac nid ymhlith yr Iuddewon yn unig. Credwyd iddo yn yr holl fyd, sef rau fawr o ddynolryw. *Analepthe en doxe.* A gymerwyd i fynu i ogoniant. *En* yn lle *eis.* Ymddengys hefyd mai y Mawrhydi Dwyfol yw y *doxa* yma, ac fod yr holl ymadrodd yn arwyddocau yr un peth a Marc xvi. 18. Ac a eisteddodd ar ddeheulaw Duw. Act. iii. 21. Y mae Zeglerus yn meddwl fod Paul yn dwyn y gwirebau hyn (*hos aphorismos*) yn erbyn yr Encratiaid.

Dr. Adam Clarke.—[Sylwadau Dr. A. Clarke ydynt i'r un perwyl ac ŷn cadarnhau gosodiad Mr. Evans; ond gadawyd hwynt allan o ddiffyg lle. Gellir eu cyhoeddi yn ôl llaw, os bydd galwad.—Gol.]

Y *natur ddynol* a gymerwyd i fynu i ogoniant, medd Dr. Clarke, ac nid y person, y Duw a ymddangosodd yn y cnawd, *sarks* yw hwn Mr. J. Gellwch chwi waeddu dirgelwch uwchben eich ffolineb, ond ffolineb y fydd ef er hyny. Nid wyf yn credu fod nemawr o'r esponwyr o'r un farn a chwi, tra y mae amryw o honynt yn cyduno a mi. Yn wir, syr, yr wyf yn synu pa fodd y gall neb yn ei synwyrau goleddu eich syniadau chwi, er dirgelwch a phob peth, gan eu bod yn croesi pob meddwl sydd genym am Dduw. Mae Duw yn anfarwol, ac nis gall farw, na chael ei groeshoelio; y mae ef yn hollalluog, ac nis gellir ei faeddu; y mae ef yn holl bresenol, ac nis gellir ei gymmeryd o un lle i'r llall, nac i ogoniant, mwy nag un man arall. A thra y byddo eich esboniad chwi yn croesi'r priodoliaethau gogoneddus hyn, ymddengys i bob pwyllgar doeth yn wrthuni noeth, yn groes-ddywediad pendant. Dirgelwch yn wir! nid oes dim dirgel yn perthyn iddo, ond ffolineb amlwg, ïe, mor amlwg a'r dydd ydyw.

Mewn perthynas i'r difyrwch a wna Mr. J. o'r gair angylion, digon yw dywedyd na ddarfu i mi ddywedyd un gair a allasai beri iddo feddwl mai yr un personau oeddwn i yn ddeall wrth y gair angylion ymhob man o'r Testament newydd. Y mae fy sylwadau i yn perthyn yn unig i'r adnod mewn dadl. Y mae Mr. J. ei hun yn addef fod yr angylion mewn un man yn arwyddo cenhadon yr efengyl, (Dat. i. 20); gallasai ychwanegu saith angel y saith eglwys yr un cystal; ond y mae ei enghraifft ef yn eithaf digon.

Ond y mae amryw o'r esbonwyr yr un farn a mi am y gair angylion etto yn yr adnod hon. Gwelsom yn barod fod Dr. Adam Clarke yn coffau'r esboniad a roddais i heb un nôd o anghymeradwyaeth, yr hyn fuasai yn sicr o wneud, yn ol ei arferiad cyffredin, pe buasai yn ei anghymeradwyo. Y mae fy ysgrif yn rhy faith i roddi meddyliau yr esbonwyr a fabwysiadant yr un golygiadau a minnau ar y gair angylion y tro hwn, gan hynny rhaid aros hyd y nesaf.

O. Evans.

YR HEN GYMDEITHAS UNDODAIDD YN Y DEHEUBARTH, &c.

Mr. Golygydd,—Cyn i'r Ymofynydd am fis Awst diweddaf ddyfod i'm dwylaw, nis gwyddwn fod "Cymdeithas y Dwyfundodiaid yng Nghymru" gwedi bod mewn bodolaeth. Drwg genym gael ar ddeall i'r Gymdeithas gael ei hesgeuluso, a'r canlyniad, fod ei defnyddioldeb gwedi marw. Yr ydwyf yn gobeithio fod y Cyfeisteddwyr ynghyd a phersonau dylanwadol eraill gwedi ymdrechu a llwyddo i'w chael unwaith etto ar ei thraed, Carwn yn fawr gael gwybod a

ydyw gwedi ei hail sefydlu. Yr ydwyf yn addaw cyfranu deg swllt yn flynyddol tuag at ei chynnal. Os ydyw'r Gymdeithas gwedi adfywhau, dymunwn wybod enw y Trysorydd, fel y gallwyf ddanfon fy nhanysgrifiad iddo.

Dymunwyf hefyd gael gwybod os ydyw "Ysgol er addysgu pregethwyr ieuanc perthynol i'r Undodiaid" gwedi ei sefydlu. Yr wyf yn addaw cyfranu pump swllt yn flynyddol at gynal y sefydliad teilwng hwn hefyd.

Gan dymuno bob llwyddiant i bob sefydliad sydd yn tueddu at ledaenu egwyddorion ac athrawiaethau pur a syml y Testament Newydd, y gorphwys,

Yr eiddoch, &c.,

Aberteifi, LEVI DAVIES.

Hydref 15*fed*, 1861.

[Y mae llythyr oddiwrth ohebydd arall newydd ddyfod i'n llaw, i'r un perwyl a'r uchod oddiwrth Mr. Davies. Ac y mae yn llawen genym weled y fath gyd-ymdeimlad gwresog âg amcanion yr hen Gymdeithas Undodaidd. Y mae argoelion bellach y dygir y Gymdeithas cyn bo hir etto i weithrediad rheolaidd ac effeithiol. Y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid, yw yr Ysgrifenydd; a chan ei fod ef yn sefyll yn lle ei ewythr, y diweddar Barch. Rees Davies, o Gapel-y-groes, a bod *stock* y Gymdeithas dan ei ofal, a'r ychydig drysor y sydd, o leiaf o fewn ei gyrhaedd, efe hefyd yw y Trysorydd, hyd nes appwyntir un arall yn y Cyfarfod Blynyddol yn Nghaerfyrddin Mehefin nesaf, yn unol a'r Rheolau sylfaenol.

Gobeithiwn gael cwrdd a Mr. L. Davies o Aberteifi, a llawer eraill a deimlant yn wresog o blaid yr un achos da, yn y Cyfarfod Blynyddol hwnnw.

Ond yn hir cyn hyny gobeithiwn glywed fod Mr. Thomas wedi derbyn cymaint o enwau rhai a ewyllysiant fod yn aelodau'r Gymdeithas, ag a fyddo yn ddigon o annogaeth iddo unwaith etto annerch Undodiaid y Deheubarth ar y pwnc, a hyny yn barotoadol i'r cyfarfod yn Nghaerfyrddin.

Yn y cyfamser mae yn dda genym hyspysu ddarfod i'r cyfeisteddwyr ag oeddent yn bresenol yn y Gellionnen, ar y 3edd o Hydref, gynal cyfarfod fel y cyfryw. Pan y cyttunwyd yn unfrydol ar ddau beth, sef—

1. I argraffu yn ddioed Waith y Parch. John James, ar Haeddiant—y tri rhifyn ynghyd. Addawodd Mr. James hefyd i ddwyn y gwaith trwy y wasg mor gynted ag y byddai yn bossibl iddo.

2. Fod y Cyfieithiad o waith Belsham a'r berson Crist—i gael ei werthu am 2s. 6c. Byddant i'w cael naill ai oddiwrth Mr. Thomas, Pantydefaid, neu o Benybont gyda sypynau misol yr YMOFYNYDD.

Ar yr un pryd cyfarfu cyfeisteddwyr Cymdeithas Llyfrau Undodiaid Gwent a Morganwg, pan y cyttunwyd fod y llyfrau sydd ganddynt hwy mewn *stock* i gael eu gwerthu am y prisoedd canlynol;

Rhifedi y Duwdod, gan Mr. Davies o'r Dinas, 2d.

Pregeth Mr. O. Evans ar Farnedigaethau Tymhorol; a Phregeth Raphael ar Undod Duw—y ddwy ynghyd, 2d.

Crist yn un â'r Tad, 1d.

Bydd y rhai'n i'w cael o Benybont gyda'r sypynau misol.—Gellir anfon tâl am danynt mewn *Postage Stamps.*

Bydd cynnygwyr y Gymdeithas er cynnorthwyo gweinidogion ieuainc, yn debyg o gwrdd a'u gilydd yn y Cyfarfod Cwarterol yn y Cwmbach, Nadolig nesaf; pan y gobeithiwn y gwelir digon o annogaeth i appwyntio cyfarfod at sefydlu y Gymdeithas.—GOL.]

GOFYNIAD.

MR. GOLYGYDD,—Teimlwyf fy hun yn hyderus yn y grediniaeth fod tudalenau yr YMOFYNYDD yn agored i rhywun neu rhai o'ch darllenwyr lluosog, pan y byddo yn methu a chael gafael yng ngwir ystyr rhyw ran, neu eiriau, o'r Ysgrythyrau Santaidd; ac yn yr hyder hyny yr wyf yn anfon y gofyniad a ganlyn i'r YMOFYNYDD, gan obeithio cael eglurhad arno genych chwi, neu ryw un o'ch gohebwyr deallus. Mewn cyfarfod ymresymu yn cael ei gynal nos Fercher, Hyd. 2il, yn ——, (diben yr hwn yw gosod rhyw adnod neu adnodau o'r Beibl a fyddont yn ddyrus dan sylw wythnos ym mlaen llaw, er rhoi cyfle i bob un ddweyd ei feddwl ar y pwnc dan sylw); yr o dd y geirian a welir yn Ioan xii. 8, 9, dan sylw: "Ac meddaf i chwi, Pwy bynag

a'm haddefo i ger bron dynion, Mab y dyn hefyd a'i haddef yntau ger bron angelion Duw; a'r hwn a'm gwado i ger bron dynion, a wedir ger bron angelion Duw." Y cwestiwn oedd, "A oes bodau uwchraddol i ddynion a elwir *angelion*, gan y Jehofa i ddybenion neillduol, yn bod neu beidio? Llefarodd amryw ag oedd yn bresenol eu meddyliau ar y pwnc; a methwyd a dyfod i benderfyniad uniongyrchol, er boddlonrwydd cyffredinol, beth oedd ei feddwl ynghylch *angelion*; felly penderfynais anfon y cwestiwn a'r pwnc i'r YMOFYNYDD, gan obeithio cael allan gwir feddwl y mater dan sylw, yr hyn a foddha llawer heblaw

Yr eiddoch,

DYSGWYLYDD YR ATEB.

* *Glan Cynon.*

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y WLADWRIAETH.—Y mae y Frenhines a'r Llŷs ar ol treulio y tymor arferol yn Scotland, wedi dychwelyd i Windsor. Bellach bydd Cynghorfeydd y Weinyddiaeth i gael eu cynnal yn fwy mynych, er cymeryd dan ystyriaeth y cyfryw fesurau a dybier fod yn ofynol gyda golwg ar sefyllfa'r wlad a disgwyliadau'r bobl, yn baratoadol at gyfarfyddiad y Senedd yn Chwefror nesaf. Ac nid y lleiaf o bwys fydd y cwestiwn—Pa un ai gall Arglwydd Palmerston a'i Weinyddiaeth wynebu y Senedd yn eu sefyllfa bresenol, a diogelu eu swyddau am flwyddyn arall, heb gael caniatad y Frenhines iddynt geisio cyfnerthu eu plaid yn Nhŷ y Cyffredin trwy etholiad cyffredinol? Dygir yr hyn a benderfynir arno, ryw ffordd ond odid, o flaen y cyhoedd maes o law. Nid oes dim yn wybyddus ar hyn o bryd, ond ei bod ymron yn sicr y bydd rhaid ychwanegu at y trethi y flwyddyn nesaf o achos y diffygiadau *(deficits)* mawr sydd wedi cymeryd lle yn y cyllid wladol eleni. Y mae un gwleidiadwr enwog, Syr James Graham, newydd gael ei symud o'n plith. Bu farw ar y 24ain o Hydref: ganed ef, Mehefin 1af, 1792.

DILËAD Y DRETH AR BAPYR.—Daeth cyfraith y Dilëad mewn grym ar y 3edd o'r mis diweddaf, ac yr oedd yn cyrhaeddyd hefyd at y *stock* o bapyr oedd mewn ystor ar y diwrnod hwnw. Dywedir fod hyn o drefn wedi bod yn achos o leihad yn nghyllid y flwyddyn bresenol o agos pedair miliwn o bunnau; ond y mae lle ddisgwyl y bydd, ar amryw ystyriaethau ag sydd o'r pwys mwyaf, o ddirfawr fantais i'r wlad yn gyffredinol. Pa fodd bynag y mae rhai o'i effeithiau wedi ymddangos eisioes—trwy achosi gostwng prisoedd rhai o'r Newyddiaduron a'r misolion, a gwellau neu ychwanegu at faintioli rhai eraill, am yr un bris. Nid all effeithio ond ychydig neu ddim ar bris yr *Ymofynydd* oherwydd fod ei gylchrediad mor gyfyngedig; ond, trwy sêl a chydymdrech cyfeillion i gael ychwaneg o dderbynwyr, gobeithiwn y galluogir ni i wellhau ein cyhoeddiad bychan, ac i ychwanegu rhyw ychydig at ei faintioli, yn awr ac yn y man, fel y byddo achos yn gofyn ac amgylchiadau yn caniatau.

Y CYFANDIR.—Y mae yn alarus i weled fod breiniaethau y Cyfandir, y rhai ydynt oll (oddieithr y Tyrciaid yn y Dwyrain) yn rhyw fath o Gristnogion proffesedig—er mewn heddwch allanol yn bresenol—yn dangos nad oes ganddynt ond ychydig neu ddim gwir ymddiried y naill yn y llall. Ar hyn o bryd, mae'n wir, y mae gan lywodraeth Rwssia ddigon o waith ar ei llaw heb fyned allan o'i thiriogaethau ëang—i gadw i lawr y Pendefigion y rhai ydynt yn gwingo yn erbyn gorchymyn a deddf yr Ymherawdwr er rhoddi eu rhyddid i'r *serfs* trwy holl Rwssia. Bygythiant derfysg a gwrthryfel yn ngwyneb y cynnyg i'w hymddifadu o'u hawdurdod etifeddiaethol ar y tueiniaid oeddynt yn eu gallu. Ond yn ofer y gwingant ac y bygythiant; mae y fyddin yn gwbl gydag Alexander; a mwy na hyny y mae cyfiawnder a dynoliaeth o'i blaid, ynghyd ag ugain miliwn o *serfs*, y rhai ydynt bellach yn sychedu am fwynhad o felusderau rhyddid. O'r tu arall, y mae trigolion Poland yn ochneidio yn flin, gan adgofion anorchfygol a hiraeth dibaid am adferiad o'u hannibyniad gwladwriaethol—cymaint felly fel ag i wrthod braidd pob rhyw fesurau o

welliant, tu yma i hyny, a gynnygier iddynt gan Rwssia. Ymddangosiadau cyhoeddus o'r dwys deimlad cyffredinol hyn—ond diobaith dan yr amgylchiadau presenol—ydynt wedi bod yn achos i'w darostwng i driniaeth arwach a chaletach nag o'r blaen. Yn Warsaw, ar y pryd hwn, a dinasoedd ereill, nid oes dim ond grym y cledd yn cadw y bobl mewn ymostyngiad. Agos cyffelyb yw sefyllfa Hungary ar hyn o bryd. Ac y mae rhanau ereill o Ymerodraeth Awstria ag sy'n galw am helaethach mesur o ryddid nag yr ydys yn barod i ganiatau; heb son am Venice, yr hon a gyfodai, y fory nesaf, mewn gwrthryfel hyd at angau, oni bai y milwyr Awstriaidd sydd yn ei gwilied a'i chadw i lawr. Ac yn ddiau mai yr un modd y byddai yn Rhufain, oni bae fod y fyddin Ffrengig yno, yn amddiffyn llywodraeth y Pab. Yn Montenegro, hefyd, a thaleithiau ereill perthynol i Twrci, mwy neu lai, y mae yr un ysprydyn gweithio, ac yn barod, ar bob cyfleusdra, i dori allan mewn terfysg neu wrthryfel.

Ffrainc.—Hyspysir fod llawer o wanobeithio parth cyflwr masnach yn Ffrainc, a bod sefyllfa y farchnad arianol yn Paris, ar y pryd hwn, yn isel os nid yn beryglus dros ben; ac y mae lle i ofni yr â yn waeth etto cyn diwedd y flwyddyn. Dywedir nad yw y llywodraeth yn ystyried fod y perygl gymaint ag y tybir? ond y gellir myned trwy yr anhawstra presenol yn gryn ddiogel, ac y bydd pethau i ddychwelyd i'w sefyllfa arferol cyn y gwanwyn.

Coroniad Brenin Prwssia.—Cymerodd y seremoni le yn Konigsberg dydd Gwener, y 18fed o Hydref. Y mae yn debyg nad oedd dim o'r fath beth a choroni Brenin wedi bod yn Prwssia am fwy na chant a haner o flynyddau. Ac yr oedd llawer yn synu: ond heb wybod pa resymau neilluol oedd yn cyffroi y Brenin William I. i gael gweinyddiad o'r hen seremoni yn ei berson ef, yn amgylchiadau presenol Ewrop a'r byd. Ychydig ddyddiau cyn hyny yr oedd wedi bod yn talu ymweliad i'w gymydog Napoleon III. yn Compiegne. Mae llawer wedi cael ei ddychymygu a'i ysgrifenu gan y Wasg Ffrengig yn enwedig—Beth allai fod y siarad rhyngddynt? pa un ai am gyngrair yn erbyn Lloegr, neu ddodi y scriw ar Emprwr Awstria er cael ei ganiatad i roddi Italy oll i'r Italiaid, neu ynte unioni y cyffiniau ar y Rhine. Ond nid oes dim yn wybyddus, pa beth oedd y siarad na beth ddaw o hono. Y mae Napleon III. wedi bod ddeng mlynedd ar orsedd Ffrainc, ac etto heb gael ei goroni. Ond yn y seremoni a fu yn Konigsberg nid oedd neb, oddieithr y Brenin a'i deulu, a ymddangosai mewn cymmaint o rwysg mawreddog a General Macmahon, cynrychiolydd Ffrainc. Yr oedd traul cynrychiolydd ein Brenhines ar yr achlysur wedi cael ei gyfyngu dywedir i ddeng mil o bunnau. Y mae y Newyddiaduron, yn absenoldeb newyddion o bwys, wedi rhoddi desgrifiad llawn a manwl o'r arddangosiadau cyssylltiadol a'r amgylchiad. Y mae y *Times* ac eraill wedi beiddio beirniadu ar yr hyn a wnaed ac a ddywedwyd ar yr achlysur, a gweinyddu cerydd llym, ac nid yn ddiachos. Ond cyttunir fod y gwasanaeth crefyddol ar ddydd y coroniad, yn neilluol darawiadol, yr arddangosiadau yn orwych, a'r perorìaeth yn ddifai; ddarfod i'r Brenin, wedi esgyn grisiau yr allor, gymeryd y goron yn ei law a'i gosod yn araf ar ei ben, ac yna troi at y gynulleidfa, a'r offeiriad (Lutheraidd) yn gweddio y weddi appwyntedig, a'r bobl yn dywedyd Amen; ac felly yn y blaen gyda'r deyrnwialen, &c., &c. Ddiwrnod o'r blaen dywedasai y Brenin yn ngwydd y Seneddwyr ymgynulledig, mai amcan yr hunan goroniad oedd arddangos mai oddiwrth Dduw oedd Breninoedd Prwssia wedi derbyn eu coron; fel pe buasai y gwrandawyr heb wybod trwy ba ffyrdd y daethpwyd i feddiannu y tiriogaethau sydd yn eu perchenogaeth.

America.—Nid y'm yn gwybod ond ychydig neu y peth nesaf i ddim, am weithrediadau milwrol y ddwy blaid yn yr Unol Daleithiau. Y mae Newyddiaduron y North, trwy eu diofalwch am y gwir, a'u gwag ymffrost wedi dyfod i fod yn ddiareb. Nid ydys yn rhoddi coel i'w haddroddiadau. Cymerwyd Lexington ynghyd a'r trysor oedd yno, tua chanol mis Medi, gan y *Confederates* dan Gen. Price. Ond ymddengys ei fod ef wedi gweled yn gymwys i ymadael a'r lle, gan fod byddin Fremont ar y Missouri yn ei fygwth. Ymddengys hefyd fod y Confederates wedi gwneud ymdrech i adenill Fort Hatteras, ond iddynt fethu, a'u gwaethu yn fawr trwy soddi dwy o'u llongau a cholli 800 o wŷr. Nid oes dim argoel etto fod y rhyfel anhappus ar dynu at derfyniad.

CYFARFOD CHWARTEROL UNDODIAID Y DEHEUBARTH.

Cynnaliwyd y Cyfarfod uchod dydd Mercher a dydd Iau, yr ail a'r 3ydd o Hydref, yn y Gellionnen.

Prydnawn dydd Mercher, am 3 o'r gloch, dechreuwyd trwy ddarllen a gweddi, gan Mr. J. Evans, myfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin, a phregethodd y Parch. D. Beynon a J. E. Jones; y blaenaf oddiwrth 1 Pedr iii. 18; a'r olaf oddiwrth Ioan viii. 36.

Boreu dranoeth, tua haner awr wedi deg o'r gloch, yr oedd cynulleidfa brydferth a lluosog wedi dyfod ynghyd, pan ddechreuwyd yr addoliad gan Mr. J. Davies, myfyriwr, a phregethodd y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, oddiwrth Rhuf. i. 16. Ar ol y bregeth cadwyd cynadledd *(conference)* agored, fel y mae yn arferol yn y cyfarfodydd hyn; a hen weinidog parchus y Gellionnen—y Parch John James—yn gadeirydd. Y pwnc oedd, *Y cysondeb neu'r cyssylltiad sydd rhwng gwirionedd a moesoldeb;* a llefarwyd arno yn bur helaeth ac i'r pwrpas a thebygem er boddhad cyffredinol, gan y Parchn. O. Evans, Cefn; T. Evans, Caerfyrddin; J. Jones, Aberdâr, a'r Cadeirydd.

Cyttunwyd ar fod y cwrdd nesaf (Nadolig) i fod yn Cwmbach, ger Aberdâr; a bod y Parchn. J. E. Jones, Penybont; a Dr. Lloyd, Caerfyrddin i bregethu yno, y blaenaf yn Saisneg, a'r olaf yn Gymraeg; a bod yr un pwnc i fod dan ystyriaeth yn y gynnadledd yno. Gorphenwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Parch. J. Jones, Aberdâr, a chanu hymn o fawl wrth ymadael.

Yn y diwedydd (trwy garedigrwydd ein brodyr y Bedyddwyr), cynnaliwyd cyfarfod etto yn eu capel yn Pontardawe; pan y dechreuwyd trwy ddarllen a gweddi gan y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, a phregethodd y Parch. Titus Evans oddiwrth Rhuf. xiii. 11, 12; a'r Parch. Owen Evans oddiwrth 1 Ioan v. 20.

Mewn man arall o'r rhifyn hwn (tudal. 263), gwelir penderfyniadau cyfeisteddwyr yr *Hen Gymdeithas Undodaidd* parth ailargraphu gwaith Mr. James ar Haeddiant; a gostwng pris gwaith Belsham ar berson Crist i 2s. 6c.; ynghyd a'r traethodynau sydd mewn *stock* gan Gymdeitdas Gwent a Morganwg.

Priodwyd—

Hyd. 14, yn yr *Union*, Merthyr, Mr. Evan Evans, o Lwydcoed, a Miss Catherine Jenkins, pedwerydd merch i Evan a Mary R. Jenkins, Trecynnon, y ddau o blwyf Aberdâr.

Llwydd i'w hoes, uwch pob loesau—a lloniant
Pob lluniaeth, ac hadau;
Diddan fyddo eu dyddiau,
A môr o hedd i'w mawrhau.

Dewi Iago.

Hyd. 22, yn Llwynrhydowen, Llandyssul, gan y Parch Wm. Thomas, A.C., Evan Thomas, Cilrhiw, a Margaret James, Blaencathal.

Bu Farw—

Mai 14, 1858, Nathaniel Evans, (Nathaniel Ifan Shon), yn Nhroedyrhiw, Cellan, Ceredigion, o henaint teg heb un math o gystudd, yn 82 o flwyddi oed. Bu yr hen batriarch hwn yn aelod selog a diwyd am dros 50 mlynedd yn Eglwys Bresbyteraidd Caeronen, Cellan. Gellir dywedyd am yr hen dad hwn yn yr efengyl heb betruso, ei fod yn ddyn didwyll a gwir deilwng, ac yn Gristion aeddfwyn a gostyngedig. Yr oedd yn nodedig am ei hunan-ymwadiad, ei larieidd-dra, ac addfwynder ei ysbryd. Y grefydd a arddelodd yn ei fywyd a'i cododd yn awr angeu uwchlaw ei ofnau. Er ei fod o ran pethau y byd hwn yn dlawd, yr oedd ei galon yn hael ar bob adeg i gynorthwyo achos Mab Duw. O ran ei farn yr oedd yn Undodwr trwyadl, a rhyfedd fel yr hoffai glywed am dadoldeb a chariad Duw, yn enwedig fel eu dadblygir yn nammeg y Mab Afradlon. Mynych y soniai am y ddammeg odidog hono gyda chalon doddedig a gruddiau gwlybion. Bu yn gyfaill ffyddlon i achos ei Dad a'i Dduw yn Nghaeronen hyd ei fedd. Mae ei ddull treiddgar a theimladwy pan yn annerch ei Dad Nefol mewn gweddi yn aros ar ein clustiau hyd y dydd hwn. Mewn gwirionedd y mae ei le yn wâg neilldduol yn yr eglwys, a gwelir ei eisiau yn fawr, canys ni adawodd nemawr cystal ag ef, na neb o'i well ar ei ôl. Felly hunodd ein hen frawd, yn llawn o dangnefedd, mewn gobaith y cawn

"Eto gwrdd,
Yn Salem bûr oddeutu'r bwrdd."

Chwithdod tew hynod heno,—sy arnaf
Nos oernych yn pigo;
Ei fod o'r byd dan glyd glo
Du gaddug wedi 'i guddio.

Ah! byth ni anobeithiaf,—rhuadgawr
Yr udgorn diweddaf,
Gyfyd lon anwylion Naf
Oddiyno yn ddianaf.

Er i fain oes derfynu—du oernych,
Dwg diwrnod mwyngu—
Ail oes i berlau Iesu,
Ar ol d'od o'r galar du.

Bellach ganu'n iach gawn ni—nid am byth
Ond am beth o'n teithi ;
A theg ymweled a thi
Ar lan y ter oleuni.

Blaenau Cellan. I. GLAN TEIFI.

Medi 6fed, Rees Kinsbury, Fforchaman, ger Aberdâr, yn 29 oed. Y dydd Mawrth canlynol daeth tyrfa luosog iawn ynghyd er hebrwng yr ymadawedig i dir ei hir gartref yn mynwent yr hen Eglwys, Aberdar. Cyn cychwyn o'r tŷ, pregethodd y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, oddiar Salm xxxii. a'r rhan olaf o'r 10fed adnod. Dioddefodd ein cyfaill hir gystudd cyn cael eu symud "i ffordd yr holl ddaear."

Medi 28, yn Nghaerdydd, yn 59 mlwydd oed, Mr. Benjamin Evans, *China Merchant.* Bu yn ddosparthydd ffyddlon i'r YMOFYNYDD, ac yn gyfaill gwresog iddo oddiar ei gychwyniad cyntaf; a pharhaodd i fod felly hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o Sir Aberteifi, ac mewn ymddiddan yr oedd efe yn hoffi coffa am yr hynaf a welodd ac y brofodd ac a ddysgodd cyn ymadael â'i fro enedigol, yr hyn a wnai gyda thynerwch a pharch neilduol, yn enwedig am yr hen Fardd o Gastell Hywel. Yr oedd yn ddyn craffus a gweithgar; hoff o ddarllen, ac hoff iawn o'r awen Gymraeg. Gwnaeth lawer cymwynas yn ei ddydd, ac yr oedd yn hynod o ddidderbyn wyneb. Treuliodd y rhan olaf, ac agos y rhan fwyaf o'i oes, yn anturiaethus a diflino, mewn gofalon masnachol yn Nghaerdydd. Ar ei wely cystudd, pan yn canfod fod ei ddyddiau yn cyflym ddirwyn i ben, dywedai ein cyfaill ymadawedig ei fod yn teimlo ei fod wedi rhoddi gormod o'i fryd a'i ofal ar y pethau a welir ac a dderfydd, a rhy fach ar y pethau a berthyn i'r Un Duw Mawr a'i wirionedd, a gofyniadau efengyl Crist a byd i ddyfod. Diau y bydd ei weddw a llawer o'i gyfeillion gyda ni, i deimlo colled ar ei ôl.

I.

Hyd. 17eg, Sarah, priod Griffith Jones, Tyllwyd, ger Aberdar, yn 22 oed. Dioddefodd hir gystudd yn amyneddgar iawn. Ar y dydd Sadwrn canlynol ymgasglodd tyrfa lluosog i'r diben i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref, yn y *Cemetry*, Merthyr Tydfil, lle y claddwyd ei mam wythnos cyn hyny. Cyn cychwyn aethpwyd a'i chorph i Dŷ-cwrdd yr Undodiaid yn y Cwmbach, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. E. W. Lloyd; pregethodd oddiar Diar. xxvii. 1, yn bwrpasol i'r achlysur. Bu yr ymadawedig yn ffyddlon iawn gyda'r canu yn y Capel uchod oddiar gychwyniad yr achos yn y lle, a theimlir y golled yn fawr ar ei hol gan yr oll o'r aelodau, ynghystal a gan ei cheraint a phawb a'i adwaenent, gan mor fwynaidd a chariadus ydoedd bob amser. Bydded i'w phriod ac eraill a deimlant yn alarus ar ei hol allel dweyd o galon yngwyneb yn amgylchiad, "Dy ewyllys di o Dad a wneler."

GALARWR.

Hyd. 18fed, yn 83 mlwydd oed, Evan James, Rhydowen, Llandyssul. Yr oedd y trancedig yn adnabyddus o fewn cylch helaeth, ac yn cael ei barchu yn fawr. Yr oedd yn berchen ar chwaeth a medrusrwydd y tuhwnt i'r cyffredin mewn cerddoriaeth, ac ystyrir iddo wneyd llawer tuag at ddiwygio canu cynulleidfaol yn y cymydogaethau o gylch. Efe, mae yn debyg, oedd yr aelod henaf o eglwys Llwynrhydowen, a chyrhaeddai ei adgofion yn dra phell yn ôl; ac yr oedd yn ddiau wedi bod yn addoli, pan yn ieuanc, yn yr hen gapel cyntaf a adeiladesid yn 1733 gan mai yn 1791 y codwyd yr ail gapel, ac iddo yntau gael ei eni yn 1778. Gwasanaethodd swydd diacon am faith flynyddau. Yr oedd yn dawel a siriol ei yspryd, didramgwydd ei rodiad, cysson ei hun yn yr addoliad cyhoeddus, selog ac ymdrechgar gydag achos crefydd. Ni chafodd ond byr gystudd. Daeth tyrfa luosog i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref, pan y pregethodd y Parch. W. Thomas oddiwrth Essay iii. 10, ac y gweddiodd y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, o flaen y tŷ.

G.

Barddoniaeth.

SYRTHIAD Y DAIL.

Mae'r dail yn syrthio,
Trwy gael eu siglo gyda'r gwynt, i'r llawr;
Ust! ust! llais tawel natur sy'n amneidio
Ar fach a mawr.

Mewn blwyddyn cawn
Wel'd llawer o 'rhai welir 'nawr yn llawen,
A llawer un sydd inni'n anwyl iawn,
Dan y dywarchen.

Trwy ofid lawer
Yr ydym yma'n rhodio dyrys daith,
Heb feddwl dylem barottoi ar gyfer
Y beddrod llaith.

Paham mor hoyw?
Byr iawn yw'n hoedl yma yn y byd,
Nis gwyddom lai na'r funud nesa'n dyd
Mewn bedd yn farw.

Cyfieithad.

ENGLYNION I DDYFFYN AERON.

Cyfansoddedig erbyn Cyfarfod Cystadlewol Aberaeron, Ebrill, 1861.

Tan fryniau wyt hen fro enwog—Aeron
Iraidd a thoreithiog;
Yn dy lenydd dolenog
Y clywaf gyntaf y gôg.

Bro wen, bro hufen, bro hafaidd—bro wych,
Bro iachus dymheraidd,
Bro'r gwenith, nid rhith, bro'r haidd,
Oludog lawntref wladaidd.

Bro ffrwythlon, gwyrddion ei geiddi—yr afon
A'n arafaidd drwyddi;
Mae ffrwythau ei hochrau hi
'N eithafoedd gwell na Theifi.

Heirdd feusydd, dolydd deiliog—oll inni
Yw'r llanerch feillionog;
A gelltydd mewn glwysrydd glog,
A deri praff cadeiriog.

Ti fagaist bendefigion—byw wleidwyr
Blodau Ceredigion;
Gwnant godi mewn bri o'r bron,
Hyd eithaf celfau'r doethion.

Bro i ddyn yn bur ddenawl—a dyffryn
Lle deffry dawn barddawl:
Ar g'oedd ryw filoedd ar fawl
Rydd gan i'r fro ddigonawl.

Ebrill, 1861. G. GWENOG.

GWAITH DUW YN Y GREADIGAETH.

Allan o'r "Herald."

Mae'r greadigaeth drwyddi'n llawn
O dystion i'r Anfeidrol Dduw,
Mae'r haul, mae'r lloer, yn fyw a'u dawn,
A hwy'r planedau o bob rhyw;
A'r ser—os ynt i'r haul yn blant,
Y maent yn ddoeth, yn deg eu gwawr,
Yn dawnsio clodydd fel myrdd cant,
Gan lesmair at y Duwdod mawr.

Mae ynteu'r môr yn ol ei drefn,
Yn murmur Duwdod wrtho'i hun,
A bythol ar ei wastad gefn,
Yn dangos Duw yn mhob rhyw lun;
Fe gŵyd ei freichiau fry yn hyf—
Ymdrecha'r un dragwyddol gerdd,
A phoera'n chwyrn, yn wyllt a chryf,
I wyneb creigiau daear werdd.

Mae'r tan, a'r tir, a'r gwynt, yn fyw,
A bwythau'r creig a'r gwylltedd llwm,
Yn cyd roi'r teyrnged o fiaen Duw,
Hyawdledd dardd o fryn a chwm.
Mae gwersi gan y blodau mân,
Ac addysg gan y dail i gyd,
Llefarant oll—maent ar wahan,
Yn datgan Duw! o hyd o hyd!

Mae'r anifeliaid—un ac oll—
Yn ei warantu'n gadarn sail,
Gan chwyddo'r clodydd heb ddim coll,
Yn gydgor llawn—rifedi'r dail;
Ond p'le mae dyn, greadur hardd,
Heb floeddio mawl i'r Duw sy'n dda?
O! deffro ddyn! dy delyn chwardd!
Prysura, fod eneidiol, gwna.

ENGLYNION

Ar farwolaeth y diweddar Barch. Dr. Wm. Davies, un o Athrawon Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin, gynt o Ffrwdyfal.

Allan o'r *Welshman.*

Bu farw y cawr Gomeraidd,—Doethawr
Dethol ac athronaidd,
Athraw pur, ieithwr peraidd,
Gwyddai'r Groeg, wyddor a gwraidd.

Golud a gwledd ei galon—oedd cynnydd
Cenedl yr hen Frython;
A mawr lwydd i Gymru lon,
Garai tu hwnt i goron.

Yn Ffrwdyfal ffrydiai o'i fin—barabl
Yn beraidd feluswin,
Mewn deall—mwy na dewin,
Anhawdd ei droi—hawdd ei drin.

Cywir o ryw câr yr Awen—medrus
Fel mydrydd dysgywen,
Neidiai 'i bill hynod o'i ben,
Yn ddiluw dros ei ddalen.

Yn y Derlwyn y cwynir—am Athraw
Fu'n meithrin y crasdir;
Dagrau hallt a dywalltir
Am dano yno yn hir.

Ac ymleda'n bla tra blin—er gwelwi
Trigolion Caerfyrddin;
A thristyd anhyfryd hin,
Gura y llwythog werin.

Gan GWILYM MAI, Caerfyrddin.

Blaenau Cellan, I. Glan Teifi.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.